Diocèse de
Quimper & Léon
Document numérisé en 2015

891.66 SYL

# SYLFEINI

YR

# ATHRAWIAETH GATHOLIG;

CYNNWYSEDIG YN

## MHROFFES Y FFYDD

A GYHOEDDWYD

GAN Y PAB PIUS IV.

MEWN FFORDD O

**Holiad ac Atebiad.**

"Byddwch barod bob amser i foddloni pob un a ofyno i chwi reswm am y gobaith sydd ynoch." 1 Pedr 3. 15.

AT YR HYN YR YCHWANEGWYD

**Rhesymau,**

PAHAM NA ALL CATHOLIG RHUFEINIG GYDYMFFURFIO A'R GREFYDD BROTESTANAIDD.

WEDI EI GYFIEITHU ER LLES Y CYMRY.

LLANRWST:

ARGRAFFWYD GAN JOHN JONES.

1839.

# SYLFEINI YR ATHRAWIAETH GATHOLIG, CYNNWYSEDIG YN MHROFFES Y FFYDD, GAN Y PAB PIUS IV.

## PEN. I.—*Am yr Eglwys.*

Hol. Pa beth yw eich proffes am erthygl yr Elgwys?

At. Y mae yn gynnwysedig yn ngeiriau Credo Nicene, "Credaf (fod) un Eglwys Lân, Gatholig ac Apostolaidd."

H. Beth a gesglwch oddiwrth y geiriau hyn?

A. 1. Fod gan Iesu Grist bob amser wir Eglwys ar y ddaear.

2. Fod yr Eglwys hon yn un bob amser trwy undeb ei holl aelodau mewn un ffydd a chymundeb.

3. Ei bod hi bob amser yn bur, a sanctaidd yn ei hathrawiaeth, ac ammodau cymundeb: ac o ganlyniad, bob amser yn rhydd oddiwrth gyfeiliornadau niweidiol.

4. Ei bod hi yn Gatholig, sef, cyffredinol, gan ei bod yn eglwys yr holl oesoedd, a mwy neu lai, yr holl genhedloedd.

5. Bod yn rhaid fod gan yr Eglwys yma olyniad oddiwrth yr Apostolion, ac anfoniad cyfreithlon oddiwrthynt hwy.

6. Yn ddilynol o'r cwbl, na's gall yr Eglwys wirioneddol yma o eiddo Crist, fod yn un o'r enwadau Protestanaidd, ond fod yn rhaid mai hi yw yr Eglwys hynafiaethol, mewn cymundeb a'r Pab, neu Esgob Rhufain.

### RHAN. I.

*Fod gan Grist wir Eglwys ar y ddaear bob amser.*

H. Pa fodd y profwch fod gan Grist bob amser Eglwys ar y ddaear?

Yr wyf hefyd yn derbyn yr Ysgrythyr santaidd yn ol yr ystyr hyny ag oedd, ac y mae yr Eglwys ein Mam sanctaidd yn ddal, i'r hon y perthyn barnu gwir ystyr a Dehongliad yr Ysgrythyrau, ac ni's derbyniaf ac ni ddehonglaf hwynt yn amgen nag yn ol unol gydsyniad y Tadau.

Yr wyf yn proffesu, fod yn wirioneddol a phriodol saith sacrament o'r Gyfraith Newydd, a sefydlwyd gan Iesu Grist ein Harglwydd, ac yn angenrheidiol er Iechawdwriaeth Dynolryw, er mai nid i gyd i bob un. h. y. Bedydd, Cadarnhad, neu Conffirmasiwn, Eucharist, Penyd, Eneiniad olaf, Urddau a Phriodas, a'u bod yn cyfranu Gras: ac nas gellir ailweinyddu y rhai hyn, sef, Bedydd, Cadarnhad ac Urddau, heb fod yn euog o gysegr-ladrad. Yr wyf hefyd yn cofleidio ac yn caniatau y Seremoniau derbyniedig a chymmeradwyedig gan yr Eglwys Gatholig, arferedig yn santaidd weinyddiad yr holl Sacramentau rhag-grybwylledig.

Yr wyf yn cofleidio ac yn derbyn yr holl Bethau a hysbyswyd ac a gyhoeddwyd yn santaidd Gymmanfa Trent, o barthed pechod gwreiddiol a chyfiawnhad.

Yr wyf yn proffesu hefyd, fod yn yr Offeren aberth cywir priodol a chymmodol yn offrymedig i Dduw dros y Byw a'r Meirw. A bod yn Sacrament santeiddiaf yr Eucharist, wir, ddiau, a sylweddol gorff a Gwaed, yn nghyd ag Enaid a Duwdod ein Harglwydd Iesu Grist: a bod Troad o holl Sylwedd y bara i Gorff, ac o holl sylwedd y Gwin i Waed; yr hwn Dröad y mae yr Eglwys Gatholig yn ei alw Traws-sylweddiad. Yr wyf hefyd yn cyfaddef, mai o dan y naill ryw neu y llall, y derbynir Crist yn gyflawn a llwyr, ac yn wir Sacrament.



# PROFFES O'R FFYDD GATHOLIG.

MYFI, E. E. wyf yn credu ac yn cyfaddef, trwy Ffydd gadarn, yr hyn oll, a phob un o'r pethau hyny ydynt gynnwysedig yn y Credo, yr hyn y mae yr Eglwys Lân Gatholig Rufeinig yn ei ddefnyddio, h. y. Credaf yn un Duw y Tad Hollalluog, Creawdwr Nef a Daear, pob Peth gweledig ac anweledig: Ac yn un Arglwydd Iesu Grist, unig anedig Fab Duw, a chenedledig o'r Tad er tragywyddoldeb, Duw Dduw, o Goleuni o Oleuni, gwir Dduw o wir Dduw, cenedledig nid gwneuthuredig, yn un hanfod a'r Tad, gan yr hwn y gwnaethpwyd pob Peth. Yr hwn erom ni Ddynion, ac er ein Hiachawdwriaeth, a ddisgynodd o'r Nefoedd, ac a gnawdiwyd trwy'r Yspryd Glân o Fair Forwyn, ac a wnaethpwyd yn Ddyn. A groeshoeliwyd hefyd drosom dan Bontius Pilatus: efe a ddyoddefodd ac a gladdwyd, a'r trydydd dydd efe a adgyfododd yn ol yr Ysgrythyrau, ac a esgynodd i'r Nef, sydd yn eistedd ar Ddeheulaw y Tad, ac a ddaw drachefn mewn Gogoniant i farnu y Byw a'r Meirw, ar Deyrnas yr hwn ni bydd diwedd. Ac yn yr Yspryd Glân, yr Arglwydd a'r Bywiawdwr, yr hwn sydd yn deilliaw oddiwrth y Tad a'r Mab, yr hwn yn nghyd a'r Tad a'r Mab a gyd-addolir ac a gyd-ogoneddir: yr hwn a lefarodd trwy y Prophwydi. Ac (Yr wyf yn credu) Un Eglwys, Lân, Gatholig, ac Apostolaidd. Addefaf un bedydd er Maddeuant pechodau. Ac edrychaf am Adgyfodiad y Meirw, a Bywyd y Byd a ddaw. Amen.

Yr wyf yn y modd mwyaf dianwadal yn derbyn ac yn cofleidio Traddodiadau Apostolaidd ac Eglwysaidd; a phob defodau eraill a sefydliadau o'r unrhyw Eglwys.

Yr wyf bob amser yn credu fod Purdan, a bod yr Eneidiau a attelir yno, yn cael eu cynnorthwyo trwy Weddiau y Ffyddloniaid. Hefyd, fod y Seintiau sydd yn teyrnasu gyda Christ, i'w hanrhydeddu, ac i ymbil arnynt, a'u bod hwy yn offrymu Gweddiau i Dduw drosom ni, a bod eu Creiriau i'w hanrhydeddu.

Yr wyf yn cadarnhau yn y modd sicraf, fod yn gyfreithlon meddu a chadw Delwau Crist, Mam Dduw, y ddibaid Forwyn, a Seintiau eraill; a bod anrhydedd a pharch priodol i'w rhoddi iddynt.

Yr wyf hefyd yn sicrhau, fod y gallu o Indwlgens (neu ryddhad o gospedigaeth amserol) wedi ei adael gan Grist i'r Eglwys, a bod yr arferiad o honynt o'r lles mwyaf i bobl Gristionogol.

Yr wyf yn cydnabod yr Eglwys Lân, Gatholig, Apostolaidd, Rufeinig, yn Fam ac yn Arglwyddes yr holl Eglwysi. Yr wyf hefyd yn addaw ufudddod ffyddlon i Esgob Rhufain, Olynwr St. Pedr, Tywysog yr Apostolion, a Rhaglaw Iesu Grist.

Yr wyf hefyd yn ddiamheuol yn derbyn ac yn proffesu yr holl Bethau eraill ag sy wedi eu traddodi, eu hysbysu a'u cyhoeddi trwy Gyfraith santaidd yr Eglwys, a Chymanfaoedd Cyffredinol, ac yn bennodol gan Gymmanfa Santaidd Trent. Ac yr wyf yn dyfarnu, yn ymwrthod, ac yn ysgymuno yr holl bethau sydd yn groes iddynt, a phob gau-grefydd ag y mae yr Eglwys wedi eu dyfarnu, eu gwrthod, a'u hysgymuno.

Myfi, E. E. wyf yn awr o wirfodd yn proffesu, ac yn gywir yn dal y wir Ffydd Gatholig yma, heb yr hon ni's gall neb fod yn gadwedig; ac yr wyf yn addaw, yn y modd mwyaf ffyddlon, i gynnal a chyfaddef yr unrhyw yn gyflawn a dihalog, trwy gymhorth Duw, hyd ddiwedd fy mywyd.



A. Oddiwrth lawer o destunau eglur o'r Ysgrythyr, yn y rhai y mae yn addawedig neu yn rhag-ddywededig, y bydd i'r Eglwys neu i'r deyrnas a sefydlwyd gan Grist sefyll hyd ddiwedd y byd, Mat. 16. 18. "Ti yw Pedr (sef craig) ac ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys, a phyrth uffern nis gorchfygant hi." Math. 28. 19, 20. "Ewch gan hyny, a dysgwch yr holl genhedloedd, gan eu bedyddio, &c., gan ddysgu iddynt gadw pob peth ar a orchymynais i chwi. Ac wele, yr ydwyf fi gyda chwi, bob amser hyd ddiwedd y byd." Salm. 71. 5, 7. "Ac efe a gyd-barha â'r haul, ac o flaen y lleuad yn oes oesoedd. Yn ei ddyddiau ef, (hyny yw wedi dyfodiad Crist) cyfiawnder a dardda i fynu, ac amledd o heddwch, hyd oni chymerer y lleuad ymaith." Daniel 2. 44. "Yn nyddiau y brenhiniaethau hyny, y cyfyd Dnw y nefoedd frenhiniaeth (yr eglwys neu deyrnas Crist) yr hon ni ddistrywir byth—a hi a saif yn dragywydd."

H. Pa brawf arall sydd genych chwi am barhad gwastadol Eglwys Crist?

A. Y Credo, yn yr hwn yr ydym yn proffesu credu yr eglwys Lân Gatholig: canys rhaid fod y credo a phob erthygl o hono yn wir bob amser; ac o ganlyniad rhaid fod bob amser Eglwys Lân Gatholig.

H. A fedrwch chwi brofi fod eglwys Crist ar y ddaear bob amser yn weledig?

A. Medraf, oddiwrth lawer o destynau o'r Ysgrythyrau, megys, Esa. 2. 1, 2, 3. &c. a Micah 4. 1, 2. Lle y darlunir eglwys Crist fel "mynydd yn mhen mynyddoedd; ac efe a ddyrchefir goruwch y bryniau; a phobloedd a ddylifant atto." a Dan. 2. 35. fel "mynydd mawr yn llenwi yr holl ddaear." Mat. 5. 14. fel "dinas a osodir ar fryn, yr hon ni ellir ei chuddio." Esa. 60. 11,

21: fel "dinas, pyrth yr hon a fyddant yn agored yn wastad, ac ni cheuir hwynt na dydd na nos, i ddynion ddwyn yno nerth y cenhedloedd, ac fel y dyger eu brenhinoedd hwynt."—"ar furiau yr hon ddinas, y mae Duw wedi gosod ceidwaid, y rhai ni thawant un amser, ddydd na nos." Esa. 68. 6.

## RHAN. II.

*Fod Eglwys Crist ar y ddaear bob amser yn un.*

H. Pa fodd y profwch fod eglwys Crist ar y ddaear bob amser yn un?

A. Oddiwrth lawer o destunau o'r Ysgrythyr. Caniad Solomon, 6. 9, 10. "Un ydyw hi, fy ngholomen, fy nihalog,—yn deg fel y lleuad, yn bur fel yr haul, yn ofnadwy fel llu banerog." Ioan 10. 16 "Defaid eraill sydd genyf, y rhai nid ynt o'r gorlan hon: (sef y cenhedloedd, y rhai y pryd hyny oeddynt wahanedig oddiwrth yr Iuddewon) y rhai hyny hefyd sydd raid i mi eu cyrchu, a'm llais i a wrandawant, a bydd un gorlan ac un bugail." Eph. 4. 4, 5. "Un corff sydd, ac un yspryd, megys ac y'ch galwyd yn un gobaith eich galwedigaeth; un Arglwydd, un ffydd, un bedydd.' Yn ddiweddaf, megys ag y gwelsom eisoes, y mae eglwys Crist yn deyrnas yr hon a saif yn dragywydd, ac am hyny rhaid ei bod bob amser yn un. Canys, "Pob teyrnas wedi ymranu yn ei herbyn ei hun, a anghyfaneddir; a phob dinas neu dŷ wedi ymranu yn ei erbyn ei hun ni saif." Mat. 12. 2 5.

H. Oni all dyn fod yn gadwedig mewn unrhyw grefydd?

A. Na all, yn ddiau: St. Paul a ddywed, Heb. 11. 6. maï "Heb ffydd anmhosibl yw rhyngu bodd Duw," Ac y mae St. Pedr yn sicrhau i ni, Act. 4. 12. "Nad oes enw arall dan y Nef wedi ei roddi i ddynion, trwy yr hwn y mae yn rhaid i ni fod yn gadwedig." A Christ ei hun a ddywed wrthym, Marc 16. 16. "Y neb ni chredo a gondemnir." Felly, y mae yn eglur oddiwrth yr Ysgrythyr lân, fod ffydd wirioneddol yn anghenrheidiol i iachawdwriaeth. Yn awr, ffydd wirioneddol er rhyngu bodd Duw ac achub ein heneidiau, rhaid iddi fod yn gyflawn, hyny yw, rhaid i mi gredu yn ddinam, yr holl erthyglau datguddiedig gan Dduw, a chynnygedig gan ei eglwys i'w credu. A phwy bynag yn wirfoddol ac yn gyndyn a angrhedo un o'r erthyglau hyn, sydd mor bell oddiwrth y ffydd wirioneddol a chadwedigol, a'r hwn sydd yn angrhedu y cwbl; fel y dywed St. Iago o berthynas i'r dyledswyddau ymarferol, Pen. 2. 10. "Pwy bynag a gadwo y gyfraith i gyd oll, ond a ballo mewn un pwnc, y mae efe yn euog o'r cwbl." Yn ganlynol, St. Paul (Gal. 5. 20.) a gyfrif heresiau (hyny yw gau-grefyddau) yn mhlith gweithredoedd y cnawd, am y rhai y traetha efe, "na chaiff y rhai sydd yn gwneuthur y cyfryw bethau etifeddu teyrnas Dduw." A Duw ei hun, Esai. 60. 12. a ddywed wrth ei Eglwys, "Y genedl a'r deyrnas ni'th wasanaetho di, a ddyfethir."

H. A all neb fod allan o ffordd iachawdwriaeth, heb euogrwydd pechod marwol?

A. Na all; ac am y cyfryw y rhai trwy gyndynrwydd, dïofalwch neu esgeulusdra mewn materion crefydd, na wrandawant y wireglwys a'i bugeiliaid, ydynt yn euog o bechod marwol, yn erbyn ffydd. Mat. 18. 17. "Os efe ni wrendy ar yr Eglwys, bydded ef i ti megys yr ethnig a'r publican." Luc 10. 16. "Y neb sydd yn eich gwrando chwi, (bugeiliaid yr eglwys) sydd yn fy ngwrando i; a'r neb sydd yn eich dirmygu chwi, sydd yn fy nirmygu i; a'r neb sydd yn fy nirmygu i, sydd yn dirmygu yr hwn a'm hanfonodd i."

H. Ond pa beth a feddyliwch am y rhai sydd ddarbwylledig yn eu cydwybodau eu bod yn y wir eglwys?

A. Os yw y cyfeiliornad hwn o'r eiddynt yn tarddu oddiar anwybodaeth anorchfygol, gallant yn esgusodol oddiwrth y pechod o heresi, os ydynt trwy ddidwyll dueddiadau eu calonau fod yn ewyllysgar i dderbyn y gwir, pe gallent ddyfod o hyd iddo, er gwaethaf pob gwrthwynebiad, elw, drwg-nwyd, &c. Ond os yw y cyfeiliornad hwn o eiddo eu cydwybodau heb fod yn anorchfygol, ond yn gyfryw ag y gallent ei weled, pe byddent yn wir ddifrifol, mewn mater mor bwysfawr, ni all eu cydwybod eu hesgusodi hwynt, ddim mwy na St. Paul, pan trwy sel ddall, yr erlidiodd efe yr eglwys; neu gamsyniol gydwybod yr Iuddewon, y rhai pan oeddynt yn rhoddi disgyblion Crist i farwolaeth, a dybient eu bod yn gwneuthur gwasanaeth i Dduw." Ioan 16. 2. "Canys, mae ffordd a dybir ei bod yn uniawn yn ngolwg dyn, a'i diwedd sydd yn arwain i farwolaeth." Diar. 16. 25.

H. Onid ydyw yr Ysgrythyrau yn rhyw le yn dywedyd, "yr achubir gweddill o bob crefydd?"

A. Nac ydyw: er i mi glywed yn fynych y fath eiriau yn cael eu haeru gan Brotestaniaid, nid ydynt yn yr Ysgrythyr, o ddechreuad Genesis hyd ddiwedd y Datguddiad. Yr wyf yn tybied mai yr hyn a achlysurodd eu cyfeiliornad ydoedd geiriau St. Paul at y Rhufeiniaid, 9. 27. lle wrth brawf-nodi Esai. 10. 22. y dywed efe,—"Pe byddai nifer meibon Israel fel tywod y môr, gweddill (sef rhan fechan o honynt yn unig) a achubir." Pa weddill mae yr Apostol ei hun yn ei egluro [Rhuf. 11. 5.] sef mai y cyfryw o'r genedl Iuddewig, y rhai yn yr amser hyny trwy iddynt ymuno â'r Eglwys, oeddynt yn gadwedig trwy ras Duw. Ond pa fodd oddiwrth hyn y profir iachawdwriaeth gweddill o bob crefyddau? Athrawiaeth yn gwrthwynebu yr Ysgrythyr mor eglur, nes y mae hyd yn nod yr eglwys Saesoneg Brotestanaidd ei hun yn y xviii o'i xxxix Erthyglau, yn cyhoeddi yn felldigedig y rhai a feiddiant ei hamddiffyn.



## RHAN II.

*Fod Eglwys Crist bob amser yn santaidd, yn ei hathrawiaeth, a'i hammodau cymmundeb, a phob amser yn rhydd oddiwrth gyfeiliornadau niweidiol.*

H. Pa fodd y profwch hyn?

A. 1. Oherwydd megys y gwelsom o'r blaen, oddi wrth Mat. 16. 13. Fod ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn ni all ddywedyd celwydd i ni, wedi addaw y caffai ei eglwys ef ei hadeiladu ar graig anorchfygol gan lifeiriant a thymestloedd, fel tŷ yr adeiladwr doeth, am yr hwn y mae efe yn crybwyll, Mat. 7. 25, ac ni's gall pyrth uffern, sef galluoedd y tywyllwch, byth ei gorchfygu hi. Am hyny ni allai Eglwys Crist byth beidio bod yn santaidd, yn ei hathrawiaeth, nid allai byth syrthio i eulun-addoliaeth, coel-grefydd, nac unrhyw gyfeiliornadau gwrthgrefyddol pa bynag.

2. O herwydd fod Crist yr hwn yw y ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd, (Ioan 16. 6.) wedi addaw Mat. 28. 19, 20. i fugeiliaid ac athrawon ei eglwys, y byddai efe gyda hwynt, bob amser hyd ddiwedd y byd. Am hyny ni's gallant fyned ar ddisperod, trwy gyfeiliornadau niweidiol. Canys pa fodd y gallant hwy fyned ar ddisperod o ffordd iawn y gwirionedd a'r bywyd, y rhai y sicrhawyd iddynt y caent ef bob amser yn arweinydd, yr hwn yw y ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd.

3. O herwydd fod ein Harglwydd wedi addaw i'r unrhyw Athrawon, Ioan 14. 16, 17. "Mi a weddiaf ar y Tad, ac efe a rydd i chwi ddiddanydd arall, fel yr arhoso gyda chwi yn dragywyddol, Yspryd y gwirionedd." Ac yn adn. 26, y mae yn sicrhau iddynt "y

bydd i Yspryd y gwirionedd ddysgu iddynt bob peth." a pen. 16. 13, "Y bydd iddo ddysgu iddynt bob gwirionedd." Pa fodd gan hyny y gallai yr holl gorff o fugeiliaid ac athrawon yr Eglwys, y rhai trwy rinwedd yr addewidion hyn oeddynt i fod yn wastadol dan arweiniad yspryd y gwirionedd, i bob gwirionedd syrthio un amser oddiwrth y gwir, trwy gyfeiliornadau mewn ffydd?

4. O herwydd yn Esai. 59. 20. 21, fod Duw wedi gwneud cyfammod arbenig, y byddai ar ol dyfodiad yr Iachawdwr, i'w yspryd a'i eiriau ef, hyny yw, yr holl athrawiaeth yr hon yr oedd yr Iachawdwr hwn i'w dysgu, gael ei hamddiffyn gan ei eglwys trwy yr holl genhedlaethau. "Ac i Sion y daw'r Gwaredydd &c." "Dyma fy nghyfammod â hwynt, medd yr Arglwydd; fy yspryd yr hwn sydd arnat, a'm geiriau y rhai a osodais yn dy enau, ni chiliant o'th enau, nac o enau dy hâd, nac o enau hâd dy hâd, medd yr Arglwydd o hyn allan byth."

5. O herwydd bod Eglwys Crist yn cael ei darlunio, Esai. 35. 8. fel prif-ffordd, ffordd santaidd, ffordd mor eglur a dïogel, fel hyd yn nod pe byddent "ynfydion ni chyfeiliornant." Pa fodd gan hyny y byddai byth yn ddichonadwy i'r Eglwys ei hun fyned ar gyfeiliorn. 6. O herwydd rhaid fod i gyfeiliornadau niweidiol mewn ffydd a moesau, gynhyrfu digofaint Duw. Yn awr, mae'r Duw Hollalluog wedi addaw i'w eglwys, Esai. 54. 9. 10. "Megis y tyngais nad elai dyfroedd Noah mwy dros y ddaear, felly y tyngais na ddigiwn wrthyt ac na'th geryddwn. Canys y mynyddoedd a giliant, a'r bryniau a symmudant; eithr fy nhrugaredd ni chilia oddiwrthyt, a chyfammod fy hedd ni syfl, medd yr Arglwydd sydd yn trugarhau wrthyt. Felly, megys ag y'n sicrheir na bydd diluw eilwaith, felly yr ydym yn ddilys na fydd i Eglwys Crist byth ddwyn arni ei hun ddigofaint Duw, gan



dysgu cyfeiliornadau gwrthwynebol i ffydd. Yn ddiweddaf, yr Eglwys a elwir gan St. Paul, 1 Tim 3. 15. "Colofn a sylfaen y gwirionedd." Am hyny, nas gall gynnal cyfeiliornadau niweidiol. Oddiwrth yr holl bethau hyn, y mae yn eglur, fod Eglwys Crist yn anffaeledig yn mhob peth perthynol i ffydd, fel nas gall hi na rhoddi at, na thynu oddiwrth yr hyn a ddywed Crist.

## RHAN IV.

*Bod Eglwys Crist yn Gatholig neu gyffredinol.*

Hol. Beth yr ydych yn ei ddeall wrth hyn?

At. Nid yn unig y bydd Eglwys Crist bob amser yn adwaenedig wrth yr enw *Catholig*, megys ac y gelwir hi yn y Credo; ond y bydd hi hefyd yn wirioneddol Gatholig neu gyffredinol, trwy fod yn Eglwys yr holl oesoedd, ac yr holl genedloedd.

Hol. Pa fodd y profwch fod yn rhaid i Eglwys wirioneddol Crist fod yn Eglwys yr holl oesoedd?

At. O herwydd fod yn rhaid mai Eglwys wirioneddol Crist yw yr hon a gafodd ei dechreuad oddiwrth Grist; ac fel yr addawodd efe, ei bod hi i barhâu hyd ddiwedd y byd. Gwel Rhan 1. a'r 3.

Hol. Pa fodd y profwch fod yn rhaid i Eglwys wirioneddol Crist, fod yn Eglwys yr holl genedloedd?

At. Oddiwrth lawer o destynau o'r Ysgrythyr, yn y rhai y mae Eglwys wirioneddol Crist bob amser yn ddarluniedig, fel cynulleidfa liosog, yn wasgaredig trwy y byd. Genes. xxii. 18. "Yn dy hâd di y bendithir holl genedloedd y ddaear." Psal. i. 8. "Gofyn i mi, a rhoddaf y cenedloedd yn etifeddiaeth i ti, a therfynau'r ddaear i'th feddiant." Psal. xxi. 28. "Holl derfynau'r ddaear a gofiant, ac a dröant at yr Arglwydd: a holl dylwythau y cenedloedd a

addolant ger ei fron ef." Esaia xlix. 6. "Gwael yw, dy fod yn wâs i mi, i gyfodi llwythau Israel;—Wele, yr wyf wedi dy roddi hefyd yn oleuni i'r cenedloedd fel y byddych yn iachawdwriaeth i mi, hyd eithaf y ddaear." Esai. 54. 1. 2. 3. "Cân, di anmhlantadwy nid esgoraist: bloeddia ganu, a gorfoledda, yr hon nid esgorodd: o herwydd, amlach meibion yr hon a adawyd, na'r hon y mae gwr iddi, medd yr Arglwydd. Helaetha le dy babell, ac estyn gortynau dy breswylfeydd, nac attal estyn dy raffau: a sicrhâ dy hoelion. Canys ti a dori allan ar y llaw ddeheu ac ar y llaw aswy: a'th hâd a etifedda 'r cenedloedd," &c. Mal. 1. 10. "Canys o gyfodiad yr haul hyd ei fachludiad hefyd, mawr yw fy enw yn mysg y cenedloedd." Gwel Esaia 1. 2. 3. Mic. 4. 1. 2. Daniel 2. 31, &c.

## RHAN V.

***Bod yn rhaid i Eglwys Crist fod yn Apostolaidd, trwy olyniad o'i Bugeiliaid, ac anfoniad cyfreithlon yn tarddu oddiwrth yr Apostolion,***

Hol. Pa fodd y profwch hyn?

At. O herwydd y rhai hyny yn unig ag a allant ddwyn eu hachau oddiwrth yr Apostolion, ydynt etifeddion i'r Apostolion; ac yn ganlynol, hwy yn unig a allent arddelw hawl i'r Ysgrythyrau, i weinyddiad y Sacramentau, neu i unrhyw ran o'r weinidogaeth fugeiliaidd; eu priodol etifeddiaeth hwy yw, yr hon a dderbyniasant oddiwrth yr Apostolion, a'r Apostolion oddiwrth Grist; "Megys y danfonodd y Tad fi, felly yr wyf finnau yn eich danfon chwi." Ioan. 20. 21.

2. O herwydd fod Crist wedi addaw i'r Apostolion, a'u olynwŷr, y byddai efe gyda hwynt bob amser, hyd ddiwedd y byd." Matt. 28. 20. "Ac yr arhosai yr Yspryd Glân, Yspryd y gwirionedd, gyda hwynt yn dragywydd." Ioan 24. 16. 17.



## RHAN VI.

***Mai yr Eglwys Gatholig, ac nid yr Eglwys Brotestanaidd, yw gwir Eglwys Crist.***

Hol. Pa fodd y profwch, mai yr Eglwys Gatholig mewn cymmundeb gyda Rhufain, yw gwir Eglwys Crist, yn hytrach na'r Eglwys Brotestanaidd, neu enwadau eraill?

At. Oddiwrth yr hyn a ddywedwyd esioes yn y rhanau blaenorol.

1. Nad all gwir Eglwys Crist fod, ond yr hon ag oedd iddi hanfod gweledig bob amser yn y byd, er amser Crist, fel y gwelsom, Rhan 1. Hi a sylfaenwyd gan Grist ei hun, 'gydag addewidion hyspysol, "Nas gorchfygid hi gan byrth uffern," Matt. 16. 18. Hi yw, "breniniaeth Crist yr hon ni ddistrywir byth." Dan. 2. 44. Am hyny, nis gall gwir Eglwys Crist fod, ond yr Eglwys Gatholig, yr hon yn unig oedd iddi hanfod gweledig yn y byd, yn wastadol er amser Crist; nid y Protestaniaid, nac unrhyw enwad diweddar arall, y rhai ni ddaethant i'r byd, hyd y flwyddyn 1500. Canys y rhai a ddaethant i'r byd 1500 o flynyddoedd ar ol Crist, a ddaethant i'r byd 1500 o flynyddoedd yn rhy hwyr i fod yn grefydd neu Eglwys Crist.

2. Gwir Eglwys Crist, trwy rinwedd yr addewidion, yn gystal yr hen Destament a'r newydd, oedd i barhâu yn bur ac yn santaidd yn ei hathrawiaeth ac ammodau cymundeb, trwy'r holl oesoedd, hyd ddiwedd y byd, fel y gwelsom Rhan 3. ac yn ganlynol nis gallai byth fod mewn angen am "ddiwygiad Protestanaidd:" Am hyny, rhaid i'r hon oedd gynt yn wir Eglwys Crist, fod felly yn awr, ac ofer ydyw chwilio am yr Eglwys wirioneddol yn mysg unrhyw ymholwyr i "ddiwygiad;" oblegyd eu bod hwy oll yn cael eu hadeiladu ar gam-sylfaen, sef, ar y dŷb, fod Eg-

lwys Crist wedi myned ar gyfeiliorn er's llawer o oesoedd.

3 Rhaid i wir Eglwys Crist fod yn Gatholig neu gyffredinol, rhaid iddi nid yn unig fod yn Eglwys yr holl oesoedd; ond hefyd, mewn mesur mwy neu lai, yn Eglwys yr holl genedloedd, fel y gwelsom hefyd, Rhan 4. Rhaid iddi fod yn Apostolaidd, trwy olyniad a danfoniad yn tarddu oddiwrth yr Apostolion, fel y gwelsom Rhan 5. Yn awr, nid all y nodau hyn gyd-uno ag unrhyw o'n henwadau diweddar, ond â'r hen grefydd yn unig, yr hon yn unig yw Eglwys yr holl oesoedd, ac mewn mesur mwy neu lai, yr holl genedloedd; a'r hon sydd yn disgyn drwy olyniad didor, yn parhau yn yr unrhyw gymundeb, oddiwrth yr Apostolion i lawr hyd y dyddiau hyn; am hyny, yr hen grefydd yn unig ydyw Eglwys wirioneddol Crist, yr hon nid all fod ond un, ac mewn un cymundeb, fel y gwelsom Rhan II.

## PEN II.

### *Am yr Ysgrythyr a Thraddodiad.*

Hol. Beth yw eich Crêd mewn perthyuas i'r Ysgrythyr.

At. Ei bod i'w derbyn gan y Cristion, fel anffaeledig air Duw.

Hol. A ydych yn edrych ar yr ysgrythyr, fel yn eglur, ac yn amlwg, i'w deall yn mhob pwnc angenrheidiol; h. y. yn mhob cyfryw bwnc yn mha un y mae ein hiachawdwriaeth mor gyfrwymol, fel y byddai ei gamddeall, a'i gamddehongli yn beryglus i'n hiachawdwriaeth dragywyddol?

At. Nac ydwyf: O herwydd, y mae St. Pedr yn sicrhau i ni, 2. Pedr 3. 16. Fod, "Yn Epistolau St. Paul ryw bethau anhawdd eu deall, y rhai y mae yr annysgedig a'r anwastad yn eu gŵyrdroi, megys yr Ysgrythyrau eraill, i'w dinystr eu hunain".



Hol. Pa fodd gan hyny y mae y perygl hwn i'w ochelyd?

At. Trwy dderbyn ystyr a dehongliad yr Ysgrythyr oddiwrth yr un llaw ag y derbyniasom y llyfr ei hun, sef oddiwrth yr Eglwys.

Hol. Paham nas gall pob Cristion fod yn rhydd i ddehongli yr Ysgrythyr yn ol ei farn neillduol ei hun, heb wneuthur cyfrif o ddeongliad yr Eglwys?

At. Oherwydd, "nad oes un brophwydoliaeth o'r Ysgrythyr o ddedongliad priod." 2 Pedr 1. 20.

2. Oherwydd, fel y mae barnau dynion mor wahanol a'u gwynebau, rhaid i'r cyfryw ryddid beri cynnifer o grefyddau ag sydd o ddynion.

3. Oherwydd fod Crist wedi gadael ei Eglwys a'i bugeiliaid, a'i hathrawon hi i fod yn gyfarwyddwyr i ni yn mhob dadleuon o berthynas i grefydd, ac yn ganlynol, yn ystyr yr Ysgrythyr lân, Ephes. iv. 11, 12 "Efe a roddes rai yn Apostolion, a rhai yn brophwydi, a rhai eraill yn efengylwŷr, a rhai eraill yn fugeiliaid ac yn Athrawon, i berffeithio'r Saint, i waith y weinidogaeth, i adeilad Corph Crist: Hyd oni ymgyfarfyddom oll yn undeb ffydd, a gwybodaeth Mab Duw, yn wr perffaith at fesur oedran cyflawnder Crist: Fel na byddom mwyach yn blantos, yn bwhwmman, acyn ein cylch-arwain â phob awel dysgeidiaeth, trwy hocced dynion, trwy gyfrwysdra i gynllwyn i dwyllo. Eithr gan fod yn gywir mewn cariad, cynnyddu o honom iddo ef yn mhob peth, yr hwn yw'r pen, sef Crist." Oddiwrth hyn, y mae St. Ioan yn ei Epistol cyntaf, pen. iv. 6. yn rhoddi i ni y rhëol hon i brofi Ysprydion: "Yr hwn sydd yn adnabod Duw, sydd yn ein gwrando ni; (sef bugeiliaid yr Eglwys) yr hwn nid yw o Dduw, nid yw yn ein gwrando ni. Wrth hyn yr adwaenom yspryd y gwirionedd ac yspryd y cyfeiliorni."

Hol. Paham y mae yr Eglwys, yn ei phroffes o ffydd, yn cymhell ei phlant i beidio byth a derbyn neu ddehongli yr Ysgrythyr mewn un ffordd arall, ond yn unfrydol â chydsyniad y Tadau Santaidd?

At. I'w harfogi hwynt yn erbyn perygl newydd-deb a chyfeiliornad: Diar. xxii. 28. "Na symud yr hen derfyn, yr hwn a osododd dy dadau."

## RHAN I.

*Am Draddodiadau Apostolaidd ac Eglwysaidd.*

Hol. Beth yr ydych yn ei ddeall wrth draddodiadau Apostolaidd?

At. Pob rhyw bwnc o ffydd neu lywodraeth Eglwysig, a ddysgwyd neu a sefydlwyd gan yr Apostolion, ac sydd wedi eu cadw yn yr Eglwys er yr amser hyny.

Hol. Pa ragoriaeth sydd rhwng traddodiadau Apostolaidd a rhai Eglwysaidd?

At. y rhagoriaeth yw hyn, mai traddodiadau Apostolaidd ydynt y rhai a gafodd eu dechreuad neu sefydliad oddiwrth yr Apostolion, fel Bedydd-babanod, Dydd yr Arglwydd, derbyn y Sacrament mewn Ympryd, &c. Traddodiadau Eglwysaidd ydynt y rhai a gawsant eu sefydliad oddiwrth yr Eglwys, fel gwyliau ac Ymprydiau a ordeiniwyd gan yr Eglwys.

Hol. Pa fodd yr ydym ni i wybod pa draddodiadau ydynt wir Apostolaidd, a pha rai nad ydynt?

At. Yn yr un modd, a thrwy'r un awdurdod, trwy yr hwn yr ydym yn gwybod pa Ysgrythyrau ydynt yn Apostolaidd, a pha rai nad ydynt; sef, gan awdurdod yr Eglwys Apostolaidd arwainedig gan anghyfeiliornadwy Yspryd Duw.

Hol. Ond paham na fyddai yr Ysgrythyr yn unig rëol ein ffydd, heb gyrchu at draddodiadau Apostolaidd?

At. 1. Oherwydd heb gymhorth traddodiad Apos-



tolaidd nis gallwn gymaint a dywedyd beth yw a pheth nad yw yr Ysgrythyr. 2. O herwydd Bedydd-babanod, a llawer o erthyglau angnenrheidiol eraill nid ydynt mewn un modd yn gynnwysedig yn yr Ysgrythyr, neu nid ydynt, oleiaf, yn eglur yn yr Ysgrythyr, heb gymhorth traddodiad.

Hol. Pa Ysgrythyr a fedrwch ddwyn y mlaen dros Draddodiadau?

At. Am hyny, frodyr, sefwch, a deliwch y traddodiadau a ddysgasoch, pa un bynag ai trwy ymadrodd, ai trwy ein hepistol ni." 2. Thes. ii. 14. "Gofyn i'th dad, ac efe a fynega i ti; i'th henuriaid, a hwy a ddywedant wrthyt." Deut. xxxii. 7. Gwêl Ps. xix. 5. 6. 7. 1. Cor. xi. 2 2. Thes. ii. 15 2. Tim. i. 13. ii. 2. iii. 14

## RHAN II.

*Am Ordeiniadau a Sefydliadau yr Eglwys.*

Hol. Paham y gwnewch chwi broffes o dderbyn a chofleidio holl ordeiniadau a sefydliadau yr Eglwys?

At. O herwydd fod Crist wedi gorchymmyn "Y neb sydd yn eich gwrando chwi, sydd yn fy ngwrando i; a'r neb sydd yn eich dirmygu chwi, sydd yn fy nirmygu i." Luc x. 16. "Megys y danfonodd y Tad fi, yr wyf finnau yn eich danfon chwi." Ioan. xx. 21. Am hyn y mae St. Paul, Heb. xiii. 17. yn dywedyd wrthym, "Ufuddhewch i'ch blaenoriaid ac ymddarostyngwch iddynt."

Hol. Paham y gorchymyn yr Eglwys gadw cynnifer o wyliau: Onid yw yn ddigon cadw y Sûl yn santaidd?

At. Ni feddyliodd Duw yn yr hen gyfraith, ei fod yn ddigon i orchymmyn Sabbath wythnosol, yr hwn oedd dydd Sadwrn; ond efe a ordeiniodd hefyd lawer

o wyliau eraill, megys y Pasg, er coffawdwriaeth o waredigaeth ei bobl o gaethiwed yr Aipht, gwyl yr wythnosau neu Sulgwyn, y Pebyll, &c. Ac y mae yr Eglwys wedi gwneud yr un peth yn y gyfraith newydd, i gynnal coffadwriaeth o'r dirgeledigaethau penaf o'n gwaredigaeth, ac i fendithio Duw yn ei Seintiau. Ac yn hyn y mae Protestaniaid yn ymddangos yn gydsyniol â ni, gan ordeinio o fewn ychydig yr holl gyfryw wyliau yn eu llyfr Gweddi gyffredin.

Hol. Oni ddywedir yn y gyfraith, Ecsod. xx. 9. "Chwe diwrnod y gweithi ac y gwnai dy holl waith, &c. paham gan hyny y cymerai yr Eglwys oddiwrth y rhan hyn o'r gorchymmyn.

At. Hyn oedd i'w ddeall os na ddigwyddai dydd gwyl yn yr wythnos; os amgen gwrthwynebai y gyfraith ei hun, pan yn Lef. pen. xxiii. y mae yn ordeinio cynnifer o wyliau eraill heblaw y Sabbath, gyda gorchymmyn i ymattal arnynt oddiwrth bob caethwaith.

Hol. O berthynas i ddyddiau ympryd, a ydych chwi yn meddwl bod yn bechadurus bwyta cîg heb achos esgusadwy ar y dyddiau hyn?

At. Ydwyf: oblegid fod yn bechod anufyddhâu i'r Eglwys, "Os ni wrendy ef ar yr Eglwys, bydded ef i ti, megys yr ethnig a'r publican." Matt. xviii. 17.

Hol. Onid yw Crist yn dywedyd Matt. xv. 11. "Nid yr hyn sydd yn myned i fewn i'r genau sydd yn halogi dyn?"

At. Y mae yn wir: nid unrhyw aflendid yn y cîg, (fel y meddyliodd llawer o'r hen hereticiaid,) neu unrhyw frynti neu lŵch, a ddichon lynu wrtho trwy ei fwyta gyda dwylaw heb ymolchi, (am ba bwnc y mae ein Harglwydd yn crybwyll yn y testun a brawfnodwyd yma) a all halogi yr enaid; canys da yw pob



creadur o eiddo Duw, a pha fudreddi corphorol bynag sydd yn myned i mewn i'r genau a fwrir allan i'r geudy: ond yr hyn sydd yn halogi yr enaid, (pan fwytao dyn gîg ar ddydd ympryd) yw anufydddod calon, drwy droseddu gorchymmynion Eglwys Dduw. Yr un modd, pan fwytâodd Adda y ffrwyth gwaharddedig, nid yr afal a aeth i mewn trwy 'r genau, ond yr anufydddod i gyfraith Duw, hyny oedd yn ei halogi ef.

## PEN. III.

### *Am y Sacramentau.*

Hol. Beth yr ydych yn ei ddeall wrth Sacrament?

At. Sefydliad gan Grist yn gynnwysedig mewn unrhyw arwydd neu Seremoni oddiallan, trwy ba un y rhoddir gras i enaid y teilwng dderbyniwr?

Hol. Pa nifer o'r cyfryw Sacramentau a ganfyddwch yn yr Ysgrythyr?

At. Y saith hyn; Bedydd, Cadarnhâd, (neu Conffirmasiwn) Eucharist, Penyd, Eneiniad Olaf, (neu eneiniad y cleifion) Urddau Santaidd, a Phriodas.

Hol. Pa Ysgrythyr sydd genych am Fedydd?

At. Ioan iii. 5. "Oddieithr geni dyn drachefn o ddwfr ac o'r Ysbryd Glân, ni ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Dduw," Mat. xxviii. 19, "Ewch gan hyny, a dysgwch yr holl genedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.

Hol. Pa fodd y profwch fod y gorchymymn hwn a roddwyd i'r Apostolion i fedyddio Cristionogion i'w ddeall am fedydd a weinyddir trwy ddwfr?

At. Oddiwrth Grêd ac ymarferiad Eglwys Crist trwy'r holl oesoedd, a'r Apostolion eu hunain, y rhai a weiniasant fedydd trwy ddwfr; Act. viii. 36, 38. "Wele ddwfr, (meddai yr Eunych wrth St. Phillip) beth sydd yn lluddias fy medyddio"? A hwy a aethant i wared ill dau i'r dwfr, Philip a'r Eunuch; ac efe

a'i bedyddiodd ef." Act. x. 47. 48." A all neb luddias dwfr, (meddai St. Pedr) fel na fedyddier y rhai hyn, y rhai a dderbyniasant yr Yspryd Glân, fel ninnau; Ac efe a orchymmynodd eu bedyddio hwynt yn enw yr Arglwydd."

Hol. Beth yr ydych yn ei ddeall wrth Gadarnhâd?

At. Cadarnhâd sydd Sacrament yn yr hwn, trwy weddio ar yr Yspryd Glân, ac arddodiad dwylaw yr Esgob, gydag eneiniad olew bendigedig (*Chrism*) y mae dyn yn derbyn grâs yr Yspryd Glân, a nerth er proffesu ei ffydd.

Hol. Pa Ysgrythyr sydd genych am Gadarnhâd?

At. Act. viii. 15. 17. lle y dywedir ddarfod i Bedr ac Ioan weini Cadarnhad i'r Samariaid. "Hwy a weddïasant drostynt, ar iddynt dderbyn yr Yspryd Glân—Yna hwy a ddodasant eu dwylaw arnynt, a hwy a dderbyniasant yr Yspryd Glân."

Hol. Pa Ysgrythyr sydd genych am yr Eucharist, neu Swpper yr Arglwydd?

At. Y mae genym hanes o'i sefydliad a roddwyd i lawr yn helaeth, Matt. xxvi. Marc xiv. Luc xxii. 1 Cor. xi. A bod y Sacrament hwn i barhau yn yr Eglwys, hyd ddyfodiad yr Arglwydd, sef, hyd ddydd y farn, fel yr ydym yn dysgu oddiwrth St. Paul, 1. Cor. xi. 26.

Hol. Beth yr ydych yn ei ddeall, wrth Sacrament Penyd?

At. Cyffes pechodau gyda chywir edifeirwch a gollyngdod, (neu absolutiwn) yr Offeiriad.

Hol. Pa Ysgrythyr sydd genych i brofi fod gan Esgobion ac offeiriaid yr Eglwys awdurdod i ollwng yn rhydd y pechadur sydd yn cyfaddef ei bechodau gyda chywir edifeirwch?

At. Ioan xx. 22, 23. "Derbyniwch yr Yspryd Glân: pwy bynag y maddeuoch eu pechodau maddeuir iddynt: a'r eiddo pwy bynag a attalioch, hwy a attaliwyd." Mat. xviii 18. "Yn wir, meddaf i chwi, pa bethau bynag a rwymoch ar y ddaear, fyddant wedi eu rhwymo hefyd yn y Nêf, a pha bethau bynag a ryddhaoch ar y ddaear, a fyddant wedi eu rhyddhâu hefyd yn y Nef. Yr hyn destunau y mae Protestaniaid yn eu deall yn yr un modd a ninnau, tra yn eu "Llyfr Gweddi gyffredin," yn y Drefn am ymweled a'r clâf, yr ydym yn cael y rhuddell hon: "Yma y cynhyrfir y dyn clwyfus i wneuthur cyffes hyspysol o'i bechodau, os efe a glyw ei gydwybod mewn cythrwfl gan un peth o bwys. Ar ol y gyffes hono y gollwng yr offeiriad ef (os efe yn ostyngedig ac yn ffyddlon a'i dymuna) yn y wedd hon." "Ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn a adawodd feddiant i'w Eglwys i ollwng pob pechadur a fyddo gwir edifeiriol, ac yn credu ynddo ef, o'i fawr drugaredd a faddeuo i ti dy gamweddau: a thrwy ei awdurdod ef a ganiatâwyd i mi, y'th ollyngaf o'th holl bechodau yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân." Amen.



Hol. Pa fodd y profwch oddiwrth y testunau a brawf-nodwyd uchod o Ioan. xx. 22, 23. a Matt. xviii. 18. yr anghenrheidrwydd i'r ffyddloniaid gyffesu eu pechodau i fugeiliaid yr Eglwys, tuag at gael gollyngdod a maddeuant o honynt?

At. O herwydd, yn y testun a brawf-nodwyd uchod, y mae Crist wedi gwneud bugeiliaid ei Eglwys, ei farnwyr yn llys cydwybod, gyda gorchymyn ac awdurdod i rwymo neu ryddhau, i faddeu neu attal pechodau, yn ol haeddiant yr achos a thuedd yr edifeiriolion. Yn awr, fel na ddichon barnwr roddi barn heb wybodaeth gyflawn o'r trosedd, yr hwn ni ellir ei gael yn y cyfryw amgylchiad perthynol i gydwybodau dynion, ond trwy eu cyffes eu hunain, y mae yn canlyn ny eglur, ei fod ef, yr hwn a ordeiniodd fugeiliaid ei

Eglwys yn farnwyr ar gydwybodau dynion, wedi gosod rhwymiad ar y ffyddloniaid, i ddatguddio iddynt sefyllfa eu cydwybodau, os ydynt yn gobeithio cael maddeuant o'u pechodau. Ychwaith, ni roddasai ein Harglwydd i'w Eglwys awdurdod i attal pechodau, llai o lawer agoriadau teyrnas nefoedd, Matt xvi. 10. pe gallasid maddeu y cyfryw bechodau ag sydd yn cau dynion allan o deyrnas nêf, *yn annibynol* ar agoriadau yr Eglwys.

Hol. A oes genych unrhyw destunau eraill o'r Ysgrythyr ag ydynt yn cynnal yr Athrawiaeth a'r arferiad Catholig o gyffesu?

At. Oes: ni a welwn yn yr hên gyfraith, yr hon oedd cynllun cyfraith Crist, fod y rhai oeddynt yn llygredig gan y gwahanglwyf, yr hwn oedd cynllun pechod, yn rhwymedig i ddangos eu hunain i'r Offeiriaid, ac i ymostwng i'w barnedigaeth hwynt; Gwêl Lefit. xiii. a xiv. a Matt. viii. 4. Yr hwn, yn ol y Tadau Santaidd, oedd arwydd-lun o gyffes pechodau yn y Sacrament Penyd. Ac yn yr un gyfraith yr oedd cyffes hyspysol o bechodau yn cael ei gorchymmyn yn eglur. Num. v. 6, 7. "Os gwr neu wraig a wna un o holl bechodau arferol i ddynion eu gwneuthur, a thrwy ddiofalwch a gamwedda yn erbyn gorchymmyn yr Arglwydd a throseddu, hwy a gyffesant eu pechod." Yr un peth sydd wedi ei ordeinio yn y Testament Newydd, "Cyffeswch gan hyny eich camweddau bawb i'ch gilydd." Iago v. 16. Hyny yw i'r Offeiriaid neu henuriaid yr Eglwys, y rhai y gorchymmynodd yr Apostolion alw am danynt. adn. 14. Ac y mae yn eglur mai hyn oedd arferiad y Cristionogion cyntaf. Act xix. 18. "Llawer o'r rhai a gredasant a ddaethant gan gyffesu a mynegi eu gweithredoedd."

Hol Beth yr ydych yn ei ddeall wrth *Eneiniad Olaf*?

At. Y mae genych lawn ddarluniad a phrawf o hono, Iago v. 14. 15. "A oes neb yn eich plith yn glaf? Bydded iddo ddwyn i mewn Offeiriaid yr Eglwys, a gweddiant drosto, gan ei eneinio ef ag olew yn enw yr Arglwydd: a gweddi 'r ffydd a iachâ y clâf, a'r Arglwydd a'i cyfyd ef i fynu, ac os bydd mewn pechodau, hwy a faddeuir iddo."



Hol. Beth yw *Urddau Santaidd*?

At. Sacrament a ordeiniwyd gan Grist, trwy'r hwn y mae Esgobion, Offeiriaid, &c. yn cael eu cysegru i'w priod-ddyledswyddau, ac yn derbyn grâs i'w hiawn gyflawni.

Hol. Pa bryd y sefydlodd Crist y Sacrament o *Urddau Santaidd*?

At. Ar ei Swper diweddaf, pan y gwnaeth ei Apostolion yn Offeiriaid, gan roddi iddynt yr awdurdod o gysegru y bara a'r gwîn i'w gorff a'i waed ef. Luc xxii. 19. "Gwnewch hyn er coffa am danaf." At yr hyn ychwanegodd, ar ol ei adgyfodiad, yr awdurdod o faddeu pechodau y rhai edifeiriol. Ioan xx. 22. 23.

Hol. Pa brawf Ysgrythyrol sy genych fod *Urddau Santaidd* yn rhoddi grâs, i'r rhai a'i derbyniant yn deilwng?

At. Geiriau St. Paul wrth Dimotheus, yr hwn a ordeiniodd yn Offeiriad, trwy arddodiad dwylaw, 2 Tim. i. 6. "Ail-ennyn grâs Duw, yr hwn sydd ynot, trwy arddodiad fy nwylaw i," 1 Tim. iv. 14. "Nac esgeulusa y grâs sydd ynot yr hwn a roddwyd i ti trwy brophwydoliaeth, gydag arddodiad dwylaw yr Offeiriadaeth."

Hol. Pa bryd y sefydlwyd Priodas?

At. Hi a sefydlwyd yn gyntaf gan Dduw Holl-alluog yn Mharadwys, rhwng ein cyn-rieni, a'r sefydliad yma a gadarnhâwyd gan Grist, yn y gyfraith Newydd, Matt. xix. 4. 5, 6. yn mha le y terfyna: Y peth

gan hyny a gysylltodd Duw, nac ysgared dyn."

Hol. Pa fodd y profwch fod *Priodas* yn Sacrament?

At. O herwydd mai cysylltiad ydyw, a wnaed ac a santeiddiwyd gan Dduw ei hun, ac nid i'w ddiddymu trwy unrhyw allu dynol, gan ei fod yn arwydd Santaidd neu yn arddangosiad dirgelaidd o'r annatodadwy undeb rhwng Crist a'i Eglwys, Eph. v. 31. 32. "Am hyny y gâd dyn ei dâd a'i fam, ac y glŷn wrth ei wraig, a hwy a fyddant ill dau yn un cnawd. Hwn sydd Sacrament mawr, eithr yn Nghrist ac yn yr Eglwys yr wyf fi yn dywedyd."

Hol. Paham na chaniatâ yr Eglwys i'r Offeiriaid briodi?

At. O herwydd ar eu mynediad dan *Urddau Santaidd*, hwy a wnant adduned neu addewid arbenig i Dduw ac i'r Eglwys i fyw yn ddiwair; yn awr, rhwygiad o'r fath adduned a fyddai yn bechod mawr, yn ol tystiolaeth St. Paul, 1 Tim. v. 11, 12. wrth sôn am weddwon a fynant briodi wedi gwneud y fath adduned, efe a ddywed, "gan gael barnedigaeth, am iddynt ddiddymu eu ffydd gyntaf," hyny yw, eu harbenig ymrwymiad i Dduw.

Hol. Ond paham nad yw yr Eglwys yn derbyn neb dan Urddau Santaidd, ond y rhai a wnant yr adduned yma?

At. O herwydd nad yw yn ei ystyried yn weddus iddynt hwy, y rhai trwy eu swydd a'u galwedigaeth a ddylynt fod yn gwbl gysegredig i wasanaeth Duw ac i ofal eneidiau, droi yn ol oddiwrth y dyledswyddau hyn, trwy draws-dyniad bywyd priodasol, 1 Cor. vii. 32, 33. "Yr hwn sydd heb briodi sydd yn gofalu am bethau yr Arglwydd, pa wedd y boddlona yr Arglwydd. Ond y neb a wreicâodd, sydd yn gofalu am betha y byd, pa wedd y boddlona ei wraig."



aeth yn arddangos i'w Dad y farwolaeth yr hon a ddyoddefodd efe drosom ni?

Hol. Pa ysgrythyr sydd genych dros hyn?

At. Geiriau y cysegriad megys y maent yn adroddedig gan Sant Luc, Pen. xxii. 19. 20. "Hwn yw fy nghorph yr hwn yr ydys yn ei roddi drosoch. Hwn yw y gwpan o'r Testament Newydd yn fy ngwaed i, yr hon a dywelltir drosoch." Os tywelltir y gwpan drosom ni, h. y. dros ein pechodau, rhaid iddi fod yn gymmodlon, o leiaf, trwy gymhwyso i ni ffrwythau aberth gwaedlyd y groes.

Hol. Pa destunau eraill o'r Ysgrythyr y mae y Tadau yn eu cymhwyso i aberth yr offeren?

At. Geiriau Duw yn y bennod gyntaf o Brophwyd Malachi, adn. 10, 11. pa le y gwrthodir aberthau yr Iuddewon, y mae yn mynegi ei dderbyniad o'r aberth hwnw, neu offrwm pur yr hwn a wneir iddo ef yn mhob lle yn mhlith y cenedloedd.

Yn 2*il*. Y geiriau hyny o eiddo y Salmydd, Sal. cix. 4. "Ti wyt offeiriad yn dragywydd yn ol urdd Melcisedec." Paham yn ol urdd Melcisedec, meddai y Tadau Santaidd, ond o herwydd aberth yr allor; (Eucharist) yn rhagddangosedig drwy y bara hwnw a'r gwîn offrymedig gan Melcisedec, Gen. xiv. 18.

Hol. Paham y mae yr Eglwys yn aberthu yr offeren yn yr iaith ladin, yr hon nid yw y bobl gan mwyaf yn ei deall?

At. O herwydd ei bod yn hên iaith yr Eglwys wedi ei harferu yn y Liturgi, neu wasanaeth cyffredin trwy yr holl genedloedd yn y gorllewin.

Yn 2*il*. Er unweddiad mwy yn y gwasanaeth cyffredin, fel y byddai i Gristion, yn mha wlad bynag y digwydd iddo fod, gael y gwasanaeth cyffredin yn gyflwynedig yn yr un modd, ac yn yr un iaith â'r hon y mae yn gynefinol gartref.

Yn 3ydd, i ochel y newidiadau i'r rhai y mae yr holl ieithoedd cyffredin beunydd yn agored.

Yn 4ydd, O herwydd bod yr offeren yn aberth, yr hwn y mae yr Offeiriad, fel gweinidog Crist, i'w offrymu, a chan fod gweddiau yr Offeren yn gyfaddas gan mwyaf i'r dyben hwn, digon yw iddynt fod mewn iaith y mae efe yn ei deall. Nid yw hyn mewn un modd yn niweidiol i'r bobl, y rhai a addysgir i gyd-fyned ag ef yn mhob rhan o'r Aberth, trwy weddiau cyfaddas i'w duwiolder, y rhai y maent yn eu cael yn eu * llyfrau gweddiau arferol.

Hol. Pa un yw y drefn oreu i wrando yr Offeren?

At. Y mae yr Offeren wedi ei sefydlu fel coffadwriaeth safadwy o farwolaeth a dyoddefaint Crist, ac y mae yn sylwedd, yr un aberth ag a offrymodd Crist ar y groes, o herwydd mai Iesu Grist yw yr offeiriad a'r offrwm; nis gall fod gwell trefn o wrando'r offeren, na myfyrio ar farwolaeth a dyoddefaint Crist yn arddangosedig yno, a rhoddi ein hunain yn yr un dymher o ffydd, gobaith, cariad, edifeirwch, &c. megys y buasai i ni annog ynom ein hunain, pe buasem yn bresennol ar ei ddyoddefaint a'i farwolaeth ar fynydd Calfaria.

Hol. Beth yw y dybenion i ba rai y mae yr Aberth yma yn cael ei offrymu i Dduw.

At. Yn benaf y pedwar hyn, pa rai a ddylai fod mewn golwg gan yr Offeiriad a'r bobl.

1af. Er gogoniant ac anrhydedd Duw ei hun.

2il. Er diolchgarwch am ei holl fendithion a roddwyd i ni trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

3ydd. Er gwneuthur iawn am ein pechodau trwy ei waed ef.

4ydd. Er meddiannu grâs, a phob bendithion anghenrheidiol gan Dduw.

* Ac yn wir y mae holl weddiau yr offeren wedi eu cyfieuthu i iaith pob gwlad fel y gallo pob un ei deall yn ei iaith ei hun.



Hol. Pa ham y mae yr Eglwys yn arferu cynnifer o ddefodau yn ngweinyddiad y Sacramentau.

At. Er annog duwiolder yn y bobl, a pharch i'r Santaidd ddirgeledigaethau, ac addysgu y ffyddloniaid o berthynas i'r effeithiau a'r grâs a roddir trwy y Sacramentau; ac i gyflawni y pethau a berthynant i ogoniant Duw ac iachawdwriaeth eneidiau, gydâ phrydferthwch gweddaidd.

Hol. A oes genych awdurdod o'r Ysgrythyr am arfer y cyfryw ddefodau?

At. Oes; y mae genym siampl Crist, yr hwn yn fynych a arferodd y fath ddefodau. Er enghraifft, wrth iâchâu y dyn yr hwn a anesid yn ddall, Ioan ix. 6, 7. Wrth anadlu ar ei ddisgyblion, pan roddodd efe iddynt yr Yspryd Glân. Ioan. xx. 22, &c.

## PEN. IV.

*Am y Gwir Bresennoldeb a Thraws-sylweddiad.*

Hol. Beth yw Athrawiaeth yr Eglwys Gatholig yn mherthynas i'r erthygl yma?

At. Yr ydym yn credu ac yn proffesu, bod yn Santeiddiaf Sacrament yr Allor, (Eucharist) yn ddiau, wirioneddol a Sylweddol Gorph a Gwaed ynghyd ag Enaid a Duwdod ein Harglwydd Iesu Grist, a bod troad neu gyfnewidiad o holl sylwedd y bara i'w gorph ef, ac o holl sylwedd y gwîn i'w waed ef; yr hwn droad neu gyfnewidiad mae yr Eglwys Gatholig yn ei alw traws-sylweddiad.

Hol. Pa brofion sydd genych am hyn?

At. yn 1af. Mat. xxvi. 26, 28. "A thra yr oeddynt yn bwyta, yr Iesu a gymerth fara, a'i bendithiodd, ac a'i torodd, ac a'i rhoddodd i'r disgyblion, ac a ddywedodd: Cymerwch, bwytêwch; hwn yw fy nghorph. Ac wedi iddo gymeryd y gwpan a diolch, efe a'i rhodd-

es iddynt, gan ddywedyd: Yfwch bawb o hwn, canys hwn yw fy ngwaed o'r Testament Newydd, yr hwn a dywelltir dros lawer, er maddeuant pechodau." Marc xiv. 22, 24. "Cymerwch, hwn yw fy nghorph. Hwn yw fy ngwaed o'r Testament Newydd, yr hwn a dywelltir dros lawer." Luc. xxii. 19. "Hwn yw fy nghorph, yr hwn yr ydys yn ei roddi drosoch chwi: gwnewch hyn er coffa am danaf." 1 Cor. xi. 24, 25. "Cymerwch a bwytewch; hwn yw fy nghorph yr hwn a roddir drosoch. Y gwpan hon yw y Testament Newydd yn fy ngwaed i." Nis gellir gwirio y geiriau hyn o eiddo Crist, pa rai a adroddwyd mewn cynnifer o leoedd, mewn unrhyw ffordd arall, heb wneud cam â'r testun, ond trwy wirioneddol gyfnewidiad y bara a'r gwin i'w gorph a'i waed ef. *2il.* 1 Cor. x. 16. Phïol y fendith yr hon a fendigwn, onid cymun gwaed Crist ydyw"? A'r bara yr ydym yn ei dori, onid cyfranogiad corph Crist yw"? Y gofyniad hwn o eiddo'r Apostol yn ddiau sydd yn gyfartal i haeriad, ac yn eglur fynegi, mai yn y Sacrament bendigaid yr ydym yn gwirioneddol dderbyn Corph a gwaed Crist. *3ydd* 1 Cor. xi. 27, 29. "Pwy bynag a fwytâo y bara hwn, neu a yfo gwpan yr Arglwydd yn annheilwng, euog fydd o gorph a gwaed yr Arglwydd. Yr hwn sydd yn bwyta ac yn yfed yn annheilwng, sydd yn bwyta ac yn yfed barnedigaeth iddo ei hun, heb iawn farnu corph yr Arglwydd." Yn awr, pa fodd y byddai dyn yn euog o gorff a gwaed yr Arglwydd, gan dderbyn yn annheilwng, os nad oedd yr hyn a dderbyniodd, ond bara a gwîn yn unig, ac nid corph a gwaed yr Arglwydd? neu yn mha le y byddai y trosedd o fod heb iawn farnu corph yr Arglwydd, os nad oedd corph yr Arglwydd yno? *4ydd.* Ioan vi. 51, &c. "Y bara a roddaf fi yw fy nghnawd i dros fywyd y byd. Yr Iuddewon am hyny a ymrysonasant â'u gilydd gan



ddywedyd: Pa fodd y dichon hwn roddi i ni ei gnawd i'w fwyta? Yna yr Iesu a ddywedodd wrthynt: Yn wir, yn wir, meddaf i chwi: Oni fwytêwch gnawd Mâb y dyn, ac oni yfwch ei waed ef, ni fydd genych fywyd ynoch. Yr hwn sydd yn bwyta fy nghnawd i, ac yn yfed fy ngwaed i, sydd ganddo fywyd tragywyddol: a myfi a'i hadgyfodaf ef yn y dydd diweddaf. Canys fy nghnawd i sydd fwyd yn wir, a'm gwaed i sydd ddïod yn wir; yr hwn sydd yn bwyta fy nghnawd i, ac yn yfed fy ngwaed i, sydd yn aros ynof fi, a minau ynddo yntau, fel yr anfonodd y Tad byw fi, ac yr ydwyf fi yn byw trwy'r Tâd, felly yr hwn sydd yn fy mwyta i, yntau hefyd a fydd byw trwof fi. Dyma y bara a ddaeth i wared o'r Nêf: nid megys y bwytâodd eich Tadau chwi y Manna, ac y buont feirw, Y neb sydd yn bwyta y bara hwn, a fydd byw yn dragywydd."

Oddiwrth hyn y mae Protestaniaid yn y Catecism yn y Llyfr Gweddi Gyffredin yn rhwymedig i gyfaddef, fod "Corph a gwaed Crist yn cael eu cymeryd a'u derbyn yn wir ac yn ddiau gan y ffyddloniaid yn Swper yr Arglwydd. Yn awr, cymeryd a derbyn yn wir ac yn ddiau yr hyn nid yw yn wir ac yn ddiau yno, sydd yn fwy dirgelwch na thraws-sylweddiad.

Hol. Oni orchymmynir i ni, Luc. xxii. 19. i dderbyn y Sacrament er coffadwriaeth am Grist?

At. Gwneir; ac y mae St. Paul, 1 Cor. xi. 26. yn ein dysgu beth a ddylai fod gwrthddrych ein coffadwriaeth wrth dderbyn, gan ddywedyd wrthym: "Y dangoswch farwolaeth yr Arglwydd hyd oni ddelo." Ond nid ydyw y coffadwriaeth hwn mewn unrhyw ffordd yn wrthwyneb i wir bresennoldeb corff a gwaed Crist. Yn y gwrthwyneb, pa goffadwriaeth gwell, na derbyn dan y llen Sacrafenol, yr un corff a gwaed, yn y rhai y dyoddefodd efe drosom ni

Hol. Pa ham yr ydych yn beio y Protestaniaid am dderbyn y Sacrament hwn er côf am Grist?

At. Nid ydym yn eu beio hwynt, am ei dderbyn er côf am dano, ond yr ydym yn eu beio hwynt, am ei dderbyn megys côf noeth, fel ag i gau allan wirioneddolrwydd ei gorph a'i waed ef. Hyny yw, yr ydym yn eu beio hwynt, am dderbyn y côf, a gadael heibio y sylwedd; o herwydd bod geiriau Crist yn gofyn cydnabod y naill a'r llall.

Hol. Ond pa fodd y mae yn alluadwy i'r Sacrament gynnwys gwir gorph a gwaed Crist?

At. O herwydd nid oes dim yn analluadwy i'r Hollalluog, ac y mae yn ehudrwydd o'r mwyaf, ni ddywedaf cabledd, i bryfed gwael y ddaear ammheu gallu Duw.

## PEN V.

*Am Gymmundeb mewn un rhyw.*

Hol. Beth yw Athrawiaeth yr Eglwys am y pwnc hwn?

At. Yr ydym yn proffesu, bod Crist yn cael ei dderbyn yn llwyr ac yn gyflawn, ac yn wir Sacrament, o dan un rhyw neu'r llall yn unig, sef wrth dderbyn y bara neu'r gwin yn unig?

Hol. Pa brawf sydd genych am hyn?

At. O herwydd, megys ac y gwelsom yn y bennod flaenorol, bod y bara, trwy gysegriad, yn cael ei gyfnewid yn wirioneddol, i gorph Crist, a'r gwîn i'w waed ef. Yn awr, y mae ffydd a rheswm yn dywedyd i ni, nas gall bywiol gorph Mab Duw fod heb ei waed; nac ei waed heb ei gorph, nac ei gorph a'i waed heb ei enaid a'i Dduwdod. Y mae yn wir iddo ollwng ei waed drosom ni, yn ei ddyoddefaint; a'i enaid yn ei farwolaeth a ysgarwyd oddiwrth ei gorph; ond yn awr, y mae wedi adgyfodi oddiwrth y meirw yn anfarwol, ac yn anoddefadwy, ac nis gall dywallt ei waed mwyach, na marw mwyach, "Crist a gyfodwyd drachefn oddiwrth y meirw," meddai yr Apostol, Rhuf. vi. 9, "nid yw yn awr yn marw mwyach; ni arglwyddiaetha marwolaeth arno mwyach." Am hyny, pwy bynag sydd yn derbyn Corff Crist, sydd yn derbyn Crist ei hun yn gwbl ac yn llwyr; nis gellir ei dderbyn ef wrth ranau.



Hol. Onid yw Crist yn dywedyd Ioan. vi. 54. "Oni fwytewch gnawd Mab y dyn, ac oni yfwch ei waed ef, ni fydd genych fywyd ynoch?

At. Gwir; eithr yn ol yr Athrawiaeth Gatholig, yr ydym yn gwneud hyn, er ein bod yn derbyn dan un rhyw yn unig, oblegid yr ydym yn derbyn corff a gwaed Crist o dan un rhyw yn unig, pan nad yw ein gwrthwynebwyr yn derbyn y naill na'r llall; ond yn unig ychydig o fara a gwîn; heblaw hyn nid yw y gwrthwynebiad hwn yn seinio yn dda yn ngenau y Protestaniaid, oblegid hwy a ddywedant: nad yw y geiriau hyn o eiddo Crist wedi eu llefaru am y Sacrament ond yn unig am ffydd.

Hol. Onid ydyw yn orchymmynedig i'r holl Gristionogion yfed o'r caregl, Mat. xxvi. 27. "Yfwch bawb o hwn?"

At. Nac ydyw; y gorchymmyn hwn a roddwyd i'r deuddeg Apostol yn unig, y rhai yn unig oeddynt yr amser hwnw yn bresennol, "a hwynt oll a yfasant o hono." Marc. xiv. 23.

Hol. Pa fodd y profwch nad yw y geiriau hyny i'w deall megys gorchymmyn wedi ei roddi i bob Cristion.?

At. O herwydd Eglwys Crist, yr hon a all roddi yr eglurhâd goreu o'i air ef, nis deallodd hwynt felly

erioed; am hyny, o'r dechreuad, ar amryw achosion, hi a roddodd y Cymmun Santaidd, mewn un rhyw, er engrhaifft, i blant, i'r cleifion, i'r ffyddloniaid yn amser erledigaeth, i'w gymeryd gyda hwynt adref, &c. Megys ag y gwelir oddiwrth yr ysgrifeniadau mwyaf nodedig mewn hynafiaeth.

Hol. Onid yw y ffyddloniaid yn y modd hwn yn cael eu hymddifadu o ran fawr o râs y Sacrament?

At. Nac ydynt, o herwydd dan un rhyw y maent yn derbyn yr un peth ag a wnaent dan y ddau, yn gymaint a'u bod yn derbyn Crist ei hun yn llwyr ac yn gwbl, yn awdwr ac yn ffynnon pob grâs.

Hol. Paham gan hyny y dylai yr Offeiriad yn yr offeren dderbyn yn y ddau ryw yn hytrach na'r ffyddloniaid eraill?

At. O herwydd gan fod yr offeren yn aberth, yn yr hwn, trwy sefydliad ein Harglwydd, y mae tywallt-iad ei waed a'i farwolaeth i fod yn arddangosedig mewn modd bywiol, y dylai yr Offeiriad, yr hwn yn weinidog Crist, sydd yn offrymu yr Aberth yma, er arddangos ysgariaeth gwaed a chorph Crist, gysegru a derbyn yn y ddau ryw mor aml ag y dywedo yr offeren, etto ar amserau eraill nid yw i'r offeiriaid, nac i'r Esgobion, nac i'r Pab ei hun, hyd yn nod ar eu gwely angau, dderbyn amgen na'r ffyddloniaid eraill, h. y. mewn un rhyw yn unig.

Hol. A oes genych destun o'r Ysgrythyr am gymmundeb mewn un rhyw?

At. Oes; yn 1af. yr holl destunau sydd yn addaw bywyd tragywyddol i'r rhai a dderbyniant, er dan un rhyw, megys Ioan vi. 51. "Y bara a roddaf fi, yw fy nghnawd i, dros fywyd y byd," adn. 57. "Yr hwn sydd yn bwyta fy nghnawd i, ac yn yfed fy ngwaed i, sydd yn aros ynof fi, a minau ynddo yntau, adn. 58. Y neb â'm bwytâo i, a fydd byw hefyd trwof i."



Yn 2il. Yr holl destunau ag sydd yn crybwyll am y ffyddloniaid yn derbyn y cymmun santaidd dan yr enw *tori bara*, heb lefaru am y gwpan; megys Act. ii. 42. "Yr oeddynt yn parhâu yn athrawiaeth yr Apostolion, ac mewn cymmundeb o dori bara, ac mewn gweddïau." adn. 46. "Yn parhâu beunydd yn gytûn yn y deml, ac yn tori bara o dŷ i dŷ." Actau xx. 7. "Ac ar y dydd cyntaf o'r wythnos, wedi i ni ymgynnull i dori bara." Luc xxiv. 30, 31. "Efe a gymerodd fara, ac a'i bendithiodd, ac a'i torodd, ac a'i rhoddes iddynt. A'u llygaid a agorwyd, a hwy a'i hadnabuant ef, ac efe a ddiflanodd o'u golwg hwynt." 1 Cor. x. 17. "A nyni yn llawer, ydym un bara, un corff, y rhai oll ydym yn cyfranogi o'r un bara."

Yn 3ydd. 1 Cor. xi. 27. Yn mha le y tystia yr Apostol, fod pwy bynag a dderbynio yn annheilwng o'r naill ryw neu'r llall, yn euog o gorff a gwaed Crist. "Pwy, bynag a fwytâo o'r bara hwn, neu a yfo o gwpan yr Arglwydd yn annheilwng, a fydd euog o gorph a gwaed yr Arglwydd." Yn mha le y mae yn eglur ddarfod i'r cyfieithwyr Seisnig Protestanaidd lygru y testun trwy roddi *ac* "a yfo," yn lle *neu* "a yfo," megys y mae yn y Groeg.

Hol. Beth yw y rhesymau, na roddai yr Eglwys y cymmun i'w holl blant yn y ddau ryw?

At. 1*af*. O herwydd bod perygl o golli gwaed Crist, yr hyn nis gellid braidd ei ochelyd, pe byddai i bawb dderbyn y gwpan.

Yn 2*il*. Oblegid gan ystyried, mor fuan y gwaethyga gwîn, nis gellid yn hawdd gadw y Sacrament i'r cleif-ion yn y ddau ryw.

Yn 3*ydd*. O herwydd bod cyflwr corphorol rhai o'r fâth, nas gallent oddef na blâs, nac arogl gwin.

Yn 4*ydd*. O herwydd bod yn anhawdd iawn mewn rhai gwledydd, gael gwir wîn.

Yn *5ed*. Yn derfynol, mewn gwrthsafiad i'r rhai hyny a wadant fod Crist yn cael ei dderbyn yn gwbl ac yn llwyr o dan y naill ryw.

## PEN. VI.

*Am yr Offeren.*

Hol. Beth yw yr Athrawiaeth Gatholig am yr offeren?

At. Mai yn yr offeren yr offrymir i Dduw, wir, priodol, a chymmodlon aberth dros y byw a'r meirw.

Hol. Beth a ddeallwch wrth yr *Offeren* ?

At. Cysegriad ac offrwm corff a gwaed Crist dan y llèni sacrafenol, neu rithiau bara a gwîn; felly yr offeren a sefydlwyd gan Grist ei hun ar ei Swper diweddaf: Crist ei hun a offrymodd yr offeren gyntaf; ac a ordeiniodd fod i'w Apostolion a'u holynwyr hwynt i wneuthur yn yr un modd, "Gwnewch hyn er coffa am danaf fi." Luc xxii. 19.

Hol. Beth yr ydych yn ei ddeall wrth aberth cymmodlon?

At. Aberth er cael trugaredd, neu trwy'r hwn yr annogir Duw i drugaredd.

Hol. Pa fodd y profwch fod yr offeren yn gyfryw aberth?

At. O herwydd yn yr offeren, y mae Crist ei hun, fel y gwelsom Pen. 4ydd. yn wir bresennol, a thrwy rinwedd y cysegriad y mae yno yn ddangosedig a chyflwynedig i'r Tad tragywyddol, dan y llèni sacrafenol, y rhai trwy eu cysegriad gwahanol ydynt yn arddangos ei farwolaeth ef. Yn awr, pa beth a all annog Duw yn fwy i drugaredd nag offrwm ei unig Fab yn wir bresenol yno, dan y drych yma o farwol-



## PENNOD VII.

*Am Burdan.*

Hol. Beth yw athrawiaeth yr Eglwys am y pwnc hwn?

At. Yr ydym yn credu yn ddianwadal, fod Purdan; ac fod yr eneidiau daliedig yno yn cael eu cynnorthwyo trwy weddiau y ffyddloniaid ac elusenau offrymedig drostynt, ac yn benaf trwy santaidd aberth yr Offeren.

Hol. Beth a feddyliwch wrth burdan?

At. Sefyllfa ganol yr eneidiau a ymadawant â'r bywyd yma yn ngrâs Duw, etto nid heb euogrwydd o ryw frychau bychain, sydd yn galw am gospedigaeth dymhorol y rhai a'u rhwystrant dros amser, rhag myned i'r nefoedd. Ond am y lle neillituol ag y mae yr eneidiau yma yn dyoddef ynddo, ac ansawdd y poenau a ddyoddefant, ni phenderfynodd yr Eglwys ddim.

Hol. Pa fath Gristionogion gan hyny sy yn myned i'r Purdan?

At. Yn 1af, y cyfryw ag sy yn marw yn euog o'r pechodau lleiaf, y rhai a alwn yn gyffredin yn faddeuol; fel y mae cynnifer o Gristionogion ag sy yn marw yn ddisymwth, neu a gymerir o'r bywyd yma cyn edifarhau am y ffaeleddau arferol yma.

Yn 2il. Y cyfryw ag a fuont gynt yn euog o bechodau mwy, ac heb wneuthur iawn cyflawn am danynt i ddwyfol gyfiawnder.

Hol. Paham y dywedwch fod y rhai sy yn marw yn euog o'r pechodau lleiaf yn myned i'r Purdan?

At. O herwydd nas gellir meddwl fod y cyfryw ag a ymadawant â'r bywyd yma cyn edifarhâu am y gwendidau maddeuol, a'r anmherffeithderau yma, yn cael eu heuog farnu i dragywyddol boenau uffern,

tra nad yw y pechodau y maent yn euog o honynt ond bychain, y rhai y maent hyd yn nod gweision goreu Duw i raddau mwy neu lai yn agored iddynt. Ac nis gallant fyned yn uniongyrchol i'r nefoedd yn y sefyllfa yma, o herwydd yr Ysgrythyr a sicrha i ni, Dat. xxi. 27 "Nid â i mewn iddi ddim aflan."

Yn awr, pob pechod, bydded fyth mor fâch, yn ddïau a haloga yr enaid: oddi yma ein Hiachawdwr a sicrhâ i ni, ein bod i roddi cyfrif hyd yn nod am bob gair segur. Mat. xii. 36.

Hol. Ar ba beth ynte y sylfaenwch eich cred am Burdan?

At. Ar Ysgrythyr, traddodiad, a rheswm.

Hol. Pa fodd ar Ysgrythyr?

At. O herwydd yr Ysgrythyr mewn amrai fanau a sicrhâ i ni y "rhydd Duw i bob un yn ol ei weithredoedd." Sal. lxii. 12. Mat. xvi. 27. Rhuf. ii. 6. Dat. xxii. 12. Yn awr ni fyddai hyn yn wir, pe na fyddai y fath beth a Phurdan, canys pa fodd y rhoddai Duw i bob un yn ol ei weithredoedd, pe byddai i'r cyfryw ag sy yn marw yn euog hyd yn nod o'r pechod lleiaf, yr hwn ni chymmerasant ofal i'w ddileu trwy edifeirwch, fyned er hyny yn uniongyrchol i'r Nefoedd.

Hol. A oes genych destun arall, pa un y mae y Tadau a'r Ysgrifenwyr Eglwysig yn ei ddeongli am Burdan?

At. Oes 1 Cor. iii. 13. 14, 15. "Gwaith pob dyn a wneir yn amlwg: Canys dydd yr Arglwydd a'i dengys; oblegid trwy dân y datguddir ef, a'r tân a brawf waith pawb, pa fath ydyw. Os gwaith neb a erys, yr hwn yr adeiliadodd efe arno (hyny yw, ar y sylfaen, yr hwn yw Iesu Grist. adn. 11.) efe a dderbyn wobr. Os gwaith neb a losgir, efe a oddef golled: Ond efe ei hun a fydd cadwedig, etto felly megys trwy dân." Oddiwrth yr hwn destun y mae yn ymddangos, am y cyfryw ag a lynasant trwy ffydd ac ymarweddiad bywyd wrth y sylfaen yr hon yw Crist Iesu, fel na chollant ei râs trwy bechod marwol, er eu bod yn euog o anmherffeithrwydd mawr, trwy adeiladu coed, gwair, a soft (adn. 12.) ar y sylfaen yma; mae yn ymddangos, meddaf, am y fath rai a hyn, yn ôl yr Apostol, fod raid iddynt fyned trwy brofiad tanllyd, yn yr amser y gwneir gwaith pob dŷn yn amlwg, yr hyn ni ddygwydd hyd y bywyd nesaf; a hwy a fyddant gadwedig yn wir, etto felly megys trwy dân, hyny yw, trwy fyned yn gyntaf trwy Burdan.



Yn 2il. Mat. v. 25, 26. "Cyttuna â'th wrthwynebwr ar frys, tra fyddech ar y ffordd gydag ef; rhag un amser i'th wrthwynebwr dy roddi di yn llaw'r Barnwr, ac i'r Barnwr dy roddi di at y swyddog, a'th daflu yn ngharchar. Yn wir, meddaf i ti ni ddeui di allan oddi yno, hyd oni thalech y ffyrling eithaf." Y mae St. Cyprian, un o Dadau hynaf yr Eglwys, yn deall hyn am garchar Purdan, Epist. 52. ad. Antonianum.

Yn 3*ydd*. Math. xii. 32. "Pwy bynag a ddywedo yn erbyn yr Yspryd Glân, nis maddeuir iddo, nac yn y byd hwn, nac yn y byd a ddaw." Y geiriau hyn a ddangosant yn eglur fod rhyw bechodau na faddeuwyd yn y byd hwn, yn cael eu maddeu yn y byd a ddaw: oddieithr hyny, paham y soniai ein Hiachawdwr am faddeuant yn y byd a ddaw? Yn awr, os dichon bod maddeuant pechodau yn y byd a ddaw, mae'n rhaid fod Purdan, oblegid nid oes maddeuant yn uffern, na phechod yn y nef.

Heblaw hyn, canol-le hefyd a ddangosir 1 Pedr iii. 18, 19, 20. Yno dywedir i Grist fyned trwy ei Yspryd, a phregethu i'r ysprydion yngharchar, y rhai a fu gynt anufydd, &c. Yr hwn garchar nis

gallai fod un amgen na Phurdan: oblegid am yr ysprydion yngharchar uffern, nid aeth Crist yn ddiau i bregethu iddynt hwy.

Hol. Pa fodd yr ydych yn sefydlu eich cred am Burdan ar Draddodiad?

At. Oblegid yr Eglwys Iuddewig, yn hir cyn dyfodiad ein Hiachawdwr Iesu Grist yn y cnawd, a'r Eglwys Gristionogol, er ei dechreuad cyntaf, yn mhob oes, ac yn mhob gwlad, a offrymodd weddiau ac aberth am orphwysdra, heddwch, a chynnorthwy i'r meirw ffyddlon; megys y mae yn eglur am yr Iuddewon yn 2il Lyfr y Maccab. 12. lle mae yr arfer yma yn cael ei chymeradwyo; pa lyfrau o'r Macchabeaid, er nad yw yr Iuddewon, etto mae yr Eglwys Lân, medd St. Augustine, L. 18. *de civit Dei*. c. 36. yn eu cyfrif yn Ganonaidd. Ac am yr Eglwys Gristionogol, mae yr un peth yn amlwg oddiwrth y Tadau oll, a'r Liturgiau hynaf, neu wasanaeth yr hen Eglwys. Yn awr, y fath weddiau â'r rhai'n a gynnwysant yn oleu y gred o Burdan: canys eneidiau yn y nef nid ydynt mewn angen o'n gweddiau; a'r rhai hyny yn uffern ni dderbyniant lês oddiwrthynt.

Hol. Pa fodd y cadarnhewch eich cred am Burdan trwy reswm?

At. Oblegid mae rheswm yn dysgu yn amlwg y ddau beth hyn:—1. Fod pob pechod, er lleied a fo, yn haeddu cospedigaeth. 2. Fod rhai pechodau mor fân, naill ai trwy ysgafnder eu defnydd, neu o eisiau cyflawn ystyriaeth ar y weithred, fel nad ydynt yn haeddu cospedigaeth dragywyddol; o herwydd paham, y mae yn eglur y rhaid bod, heblaw y lle o gospedigaeth dragywyddol, yr hwn a elwir uffern, le arall hefyd o gospedigaeth amserol i'r cyfryw fath ag sy yn marw mewn pechodau bychain; a'r lle hwnw a alwn ni yn Burdan.



## PENNOD VIII.

*Am Anrhydeddiad a Chyfarchiad y Seintiau.*

Hol. Pa beth yw yr athrawiaeth Gatholig yn nghylch anrhydeddu a gweddio ar y Seintiau?

At. Fe'n dysgir, 1. Fod anrhydedd a pharch yn ddyledus i'r Angelion a'r Seintiau. 2. Eu bod hwy yn offrymmu gweddiau at Dduw drosom ni. 3. Bod yn dda ac yn llesol eu cyfarch neu alw arnynt hwy; hyny yw, i erfyn eu cyfryngiad a'u gweddiau. 4. Fod eu creiriau neu relywiau i gael gwiw barch.

### RHAN I.

*Am anrhydeddiad yr Angelion a'r Seintiau.*

Hol. Pa fodd y profwch fod anrhydedd a pharch yn ddyledus i'r Angelion a'r Seintiau?

At. 1. O herwydd mai Angelion a Seintiau Duw ydynt; hyny yw, gweision ffyddlonaf, llyswyr ac anwyliaid Brenin y breninoedd; y rhai, wedi iddynt ei anrhydeddu ef yn fawr, ydynt yn awr mewn urddas, ac a'u hanrhydeddir yn fawr ganddo yntau, fel yr addawodd gynt, 1 Sam. ii. 30. "Canys fy anrhydeddwyr a anrhydeddaf fi."

2. Oblegid hwy a dderbyniasant ardderchocaf a goruchel ddoniau gras a gogoniant oddiwrth eu Harglwydd; a hyn a'u gwna yn wir deilwng o'n hanrhydedd a'n parch: gan hyny, nyni a'i rhoddwn fel yn ddyledus iddynt hwy, yn ol geiriau'r Apostol, Rhuf. xiii. 7. "Parch i'r hwn y mae parch yn ddyledus."

3. Oblegid Angelion Duw ydynt ein noddwyr, ymgeleddwyr, a'n llywiawdwyr ni; fel y mae yn eglur oddiwrth lawer o destunau o'r Ysgrythyr Lân; Salm xc. 11, 12. "Canys efe a orchymmyn i'w angelion am danat ti, dy gadw yn dy holl ffyrdd: ar eu dwylaw y'th ddygant, rhag taro dy droed wrth gareg."

Mat. xviii. 10. "Edrychwch na ddirmygoch yr un o'r rhai bychain hyn; canys yr wyf yn dywedyd i chwi, fod eu hangelion hwy yn y nefoedd, bob amser yn gweled wyneb fy Nhad, yr hwn sydd yn y nefoedd." Heb. i. 14. "Onid ysprydion gwasanaethgar ydynt hwy oll, wedi eu danfon i wasanaethu er mwyn y rhai a gânt etifeddu iachawdwriaeth?" Y mae yn eglur, gan hyny, mai ewyllys Duw yw, fod genym grefyddol barch i'r noddwyr nefolaidd hyn. Exod. xxiii. 20, 21. "Wele fi yn anfon angel o'th flaen di, i'th gadw ar y ffordd, ac i'th arwain i'r man a baratôais: gwilia rhagddo, a gwrando ar ei lais ef: na chyffrôa ef; oblegid y mae fy enw ynddo ef."

4. Oblegid Duw a addawodd i'w Seintiau awdurdod ar yr holl genhedloedd. Dat. ii. 26, 27. "A'r hwn sydd yn gorchfygu, ac yn cadw fy ngweithredoedd hyd y diwedd, mi a roddaf iddo awdurdod ar y cenhedloedd: ac efe a'u rheola hwynt â gwialen haiarn—fel y derbyniais innau gan fy Nhad." Dat. v. 10. "Ac a'n gwnaethost ni i'n Duw ni yn deyrnas ac offeiriaid, a ni a deyrnaswn ar y ddaear." Gan hyny, yr holl genhedloedd a ddylent anrhydeddu'r Seintiau, gan iddynt dderbyn oddiwrth Dduw yr awdurdod freninol hon arnynt hwy.

5. Oblegid fod genym lawer anghraifft yn yr Ysgrythyr Lân o barch ac anrhydedd a dalwyd i'r angelion gan wasanaethwyr Duw. Gwel Jos. v. 14, 15.

6. Oblegid yr Eglwys ymhob oes a dalodd y parch a'r anrhydedd hyn i'r Seintiau, trwy adeiladu Eglwysi, a chadw gwyliau er coffa am danynt; arferiad ag y mae y Protestaniaid hefyd yn Lloegr a Chymru yn ei gynnal.

Hol. A ydych chwi felly yn addoli yr angelion a'r Seintiau fel Duw, neu yn rhoddi iddynt yr anrhydedd a berthyn i Dduw yn unig?



At. Na atto Duw; canys hyn a fyddai uchel fradwriaeth yn erbyn ei Ddwyfol Fawrhydi.

Hol. Pa wahaniaeth sydd rhwng yr anrhydedd a roddwch i Dduw, â'r hwn a roddir i'r Seintiau?

At. Nid oes cyffelybiaeth rhyngddynt. Nyni a addolwn Dduw â'r anrhydedd uchaf oll, fel Pen Arglwydd, a Chreawdwr pob peth oll, fel ein dechreuad cyntaf, a'n diwedd olaf: yr ydym yn credu ynddo ef yn unig; yr ydym yn gobeithio ynddo ef yn unig; yr ydym yn ei garu ef uwchlaw pob peth oll. Iddo ef yn unig yr ydym yn talu ein teyrnged o ddwyfol addoliaeth, clod, ac aberth: ond am y Seintiau a'r Angelion, ni a'u parchwn hwynt yn unig âg iselach urddas ac anrhydedd, "fel yn perthyn iddo ef, er ei fwyn ef, ac o achos y doniau a dderbyniasant oddiwrtho ef."

Hol. Onid ydych chwi yn rhoddi neillduol fri neu anrhydedd i'r Wyryf Fair?

At. Ydym; o herwydd ei rhagorol urddas o fod yn Fam i Dduw; o ethryb hyn, "Yr holl genedlaethau a'i geilw hi yn wynfydedig." Luc i. 48. Hefyd, o herwydd y cyflawnder o râs a feddiannodd hi yn y bywyd hwn, a'r uchel radd o ogoniant i'r hwn y dyrchafwyd hi yn y nef. Ond etto yr anrhydedd hwn a roddwn iddi hi sydd anfeidrol îs na'r hwn a dalwn i Dduw; i'r hwn y mae hi yn ddyledus am ei holl uchel-fraint, gras, a gogoniant.

## RHAN. II.

*Fod y Seintiau a'r Angelion yn gweddio ar Dduw drosom ni.*

Hol. Pa fodd y profwch hyn?

At. 1. O Zechariah i. 12. lle y clywodd y Prophwyd Angel yn gweddio dros Jerusalem, a dinasoedd Judah. "Ac Angel yr Arglwydd a attebodd ac a ddywedodd, O Arglwydd y lluoedd, pa hyd na

thrugarhêi wrth Jerusalem a dinasoedd Juda, wrth y rhai y digiaist y deng mlynedd a thriugain hyn?"

2. O'r Dat. v. 8. "Y pedwar henuriaid ar hugain a syrthiasant ger bron yr Oen, a chan bob un o honynt yr oedd telynau a phiolau aur, yn llawn o arogldarth, y rhai ydyw gweddiau y Seintiau." A Dat. viii. 4. "Ac fe aeth mwg yr arogldarth gyda gweddiau y Seintiau o law'r Angel i fynu ger bron Duw." Oddiwrth y testunau hyn mae yn eglur, fod y Seintiau a'r Angelion yn offrymmu i Dduw weddiau y Seintiau, hyny yw, y ffyddloniaid ar y ddaear.

3. O herwydd ein bod yn y Credo yn proffesu Cymmun y Seintiau; a St. Paul, Heb. xii. 22, 23, 24. gan sôn am blant Eglwys Crist, a lefarodd wrthynt, fod ganddynt hwy gymdeithas â'r Seintiau yn y nef. "Eithr chwi a ddaethoch i fynydd Sïon, ac i ddinas y Duw byw, y Jerusalem nefol; ac at fyrddiwn o Angelion, i gymanfa a chynnulleidfa y rhai cyntafanedig, y rhai a ysgrifenwyd yn y nefoedd; ac at Dduw, Barnwr pawb, ac at ysprydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd, ac at Iesu y Cyfryngwr, &c." Gan hyny, plant Eglwys Crist ar y ddaear ydynt yn gyd-aelodau â'r Seintiau yn y nef, o'r un corff, dan yr un Pen, yr hwn yw Crist Iesu. Oddiyma, mae yr un Apostol, Gal. iv. 26. yn galw "y Jerusalem nefol ein Mam ni oll;" ac Eph. ii. 19. mae efe yn dywedyd wrthym, ein bod ni yn gyd-ddinasyddion â'r Seintiau. Gan hyny, mae y Seintiau yn y nef yn gofalu ac yn pryderu am danom ni, megys aelodau o'r un corff; o achos cynneddf aelodau o'r un corff yw, bod yn ofalus am eu gilydd, 1 Cor. xii. 25, 26. Yn ganlynol, mae y Seintiau yn y nef yn gweddio drosom ni.

4. Oblegid yn ol athrawiaeth yr Apostol 1 Cor. xiii. 8. ansawdd cariad ydyw, na chollir ef yn y nef, megys y collir yno ffydd a gobaith. "Cariad, medd St. Paul, byth ni chwymp ymaith." Yn y gwrthwyneb, y rhinwedd nefol hon a berffeithir yn y nef; yn mha le, wrth weled Duw wyneb yn wyneb, yr ennynir yr enaid â'r cariad gwresocaf tuag at Dduw; ac er ei fwyn ef a gâr ei blant yn ddirfawr, a'i frodyr yntau yma ar y ddaear. Pa fodd, gan hyny, y gall y Seintiaa yn y nef (gan y rhai y mae cariad mor berffaith tuag atom) beidio gweddio drosom ni, gan mai y peth cyntaf oll y mae cariad yn annog dyn i'w wneuthur ydyw, ceisio amddiffyn a chynnorthwyo y sawl y mae efe yn eu caru.



5. Oblegid ni a ganfyddwn Luc xvi. 27, 28. y glwth cyfoethog yn uffern yn ymbil dros ei bum' brawd ar y ddaear; pa faint mwy yr ydym ni i gredu fod y Seintiau yn y nef yn eiriol neu yn cyfryngu dros eu brodyr yma ar y ddaear?

6. Oblegid Dat. vi. 10. mae eneidiau'r merthyron yn gweddio am ddial ar eu herlidwyr, y rhai a'u dodasant i farwolaeth. Pa faint mwy y gweddiant am drugaredd i blant ffyddlon yr Eglwys?

7. Yn olaf, oblegid ein Harglwydd a ddywed wrthym, Luc xvi. 9. "Gwnewch i chwi gyfeillion o'r Mammon anghyfiawn; fel pan fo eisiau arnoch, y'ch derbyniont i'r tragywyddol bebyll." Yma mae'n rhoddi ar ddeall i ni fod gweision Duw (y rhai a gynnorthwyasom trwy ein helusen, ar ol iddynt hwy gyrhaeddyd i'r nef,) yn ein cynnorthwyo ninau i fyned i mewn i'r deyrnas dragywyddol hono.

## RHAN III.

*Am ddeisyfiadau ar y Seintiau.*

Hol. Pa beth a feddyliwch wrth ddeisyfiadau ar y Seintiau?

At. Yr wyf yn deall y fath erfynion neu eirchion a wneir i ddymuno eu gweddiau, a'u cyfryngiad drosom ni.

Hol. A ydyw y Catholigion yn gweddio ar y Seintiau?

At. Os wrth weddio ar y Seintiau yr ydych yn meddwl ein bod ni yn erfyn arnynt, neu yn gorchymmyn ein hunain iddynt, megys at awdwyr neu ddosbarthwyr gras a gogoniant, neu yn y fath wedd ag i dybied fod ganddynt hwy awdurdod i'n cynnorthwyo ni yn annibynol, neu ar wahân oddiwrth ewyllys da a rhâd Duw; os fel hyn y deallir, nid ydym yn gweddio arnynt; ond yr ydym yn llysu y cyfryw erfyniad fel gwag-grefyddol ac annuwiol: ond os wrth "weddio ar y Seintiau" ni ddeallwch ddim mwy nag ein bod yn dymuno arnynt hwy weddio ar Dduw drosom, yn yr ystyr hwn yr ydym yn dal ei fod yn beth da a llesol i "weddio ar y Seintiau."

Hol. Pa fodd y profwch fod yn dda ac yn llesol ddymuno ar y Seintiau a'r Angelion yn y nef am weddio ar Dduw drosom ni?

At. Oblegid da a buddiol yw dymuno ar weision Duw yma ar y ddaear weddio drosom ni: "Canys llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn." St. Iago v. 16. Moses, trwy ei weddiau, a ynnillodd drugaredd i blant Israel, Exod. xxxii. 11, 14. A Samuel, trwy ei weddiau, a oresgynodd y Philistiaid, 1 Sam vii. 8, 9, 10. Oddiar hyn mae St. Paul, gan mwyaf yn ei holl Epistolau, yn dymuno ar y ffyddloniaid weddio drosto ef, Rhuf. xv. 30. Eph. vi. 18, 19. 1 Thes. v. 25. Heb. xiii. 13. A Duw ei hun, Job xlii. 8. a roddodd orchymmyn i Eliphas a'i ddau gyfaill i fyned at Job, ac y gweddiai Job drostynt, gan addaw y derbyniai ei weddiau ef. Yn awr, os ydyw yn gymeradwy gan Dduw, ac yn dda ac yn llesol i ninau, ddeisyf gweddiau a chyfryngiad gweision Duw yma ar y ddaear, oni bydd yn fwy o lawer felly i geisio gweddiau ac eiriolaeth y Seintiau yn y nef; gan fod



eu cariad tuagatom ni, yn nghyd a'u bri a'u hawdurdod gyda Duw yn fwy o lawer yn awr na phan oeddynt yma ar y ddaear?

Hol. Onid yw hyn yn dangos eisiau hyder yn anfeidrol ddaioni Duw, ac yn arddigonol haeddedigaethau Iesu Grist ein Gwaredwr, ddeisyf o honom ar y Seintiau am eu gweddiau a'u heiriolaeth?

At. Na; Dim mwy nag i ni erfyn ar ein brodyr yma ar y ddaear, megys y gwna y Protestaniaid pan ddymunant weddiau y gynnulleidfa; gan nad ydym yn deisyf ar y Seintiau ddim mwy nag a ddymunem ar ein brodyr yma ar y ddaear; sef, ar weddio o honynt hwy drosom, a chyda ni, ar anfeidrol ddaioni Duw, yr hwn yw ein Tad ni a'u Tad hwythau, ein Harglwydd ni a'u Harglwydd hwythau; trwy haeddedigaethau ei Fab Iesu Grist, yr hwn yw ein Cyfryngwr ni a'u Cyfryngwr hwythau. Canys, er bod daioni Duw a haeddedigaethau Crist yn anfeidrol, etto gan nad yw hyn ddim yn ein hesgusodi ni oddiwrth fynych weddio drosom ein hunain, yr hyn a ganmolir gymaint yn yr Ysgrythyr Lân; felly nid oes un rheswm i ni fod yn hwyrfrydig mewn dymuniad o weddiau rhai eraill, pa un bynag ai yn y nef, neu ar y ddaear; fel y gallo Duw felly gael yr anrhydedd, a ninau y llês, o gynnifer mwy o weddiau.

Hol. Onid oes perygl, trwy wneuthur felly, o roddi i'r Seintiau yr anrhydedd sydd yn perthyn i Dduw yn unig?

At. Nac oes: mae yn eglur nad yw dymuniad o weddiau ac eiriolaeth y Seintiau mewn un modd yn rhoddiad iddynt o'r anrhydedd sydd yn perthyn i Dduw yn unig; mor belled yw oddiwrth hyn ag y byddai yn gabledd i ddeisyf ar Dduw "weddio drosom ni;" oblegid pwy bynag a ddymuno ar un arall weddio drosto ef, er derbyn gras neu fendith, sydd yn

tybied fod yr hwn, at ba un y mae felly yn cyfeirio ei weddi, yn iselach ac yn ddeiliad i ryw un arall, trwy yr hwn y mae y gras neu y fendith i'w chyfranu.

Hol. A oes genych un rheswm i feddwl fod gan y Seintiau a'r Angelion ryw wybodaeth o'r gweddiau neu yr erfynion a wneir arnynt hwy?

At. Oes, y mae genym. 1. Oblegid ein Harglwydd a sicrhâ i ni, Luc xv. 10. "Fod llawenydd o flaen Angelion Duw am un pechadur a edifarhâo." Canys os llawenychant ar ein hedifeirwch, mae ganddynt yn ganlynol wybodaeth o'n hedifeirwch; ac os oes ganddynt wybodaeth o'n hedifeirwch, pa reswm all fod genym i ammheu eu gwybodaeth hwynt o'n herfynion hefyd? A'r hyn a ddywedir yma am yr Angelion, sydd i'w ddeall hefyd am y Seintiau, yn nghylch y rhai y dywed ein Harglwydd wrthym, Luc xx. 36. "Cydstad ydynt â'r Angelion."

2. Oblegid, fel y gwelsom eisoes, Angelion Duw ydynt ein gwarcheidwaid ni; maent bob amser yn ein mysg ni, ac am hyny ni allant fod yn anwybodus o'n herfynion ni; yn enwedig ar ol i ni weled o'r Dat. v. 8. a'r viii. 4. fod yr Angelion a'r Seintiau yn offrymmu ein gweddiau ni ger bron gorsedd-fainc Duw; gan hyny, mae yn rhaid iddynt eu gwybod.

3. O herwydd eglur yw o'r Dat. xi. 15. a'r xix. 1, a'r 2. fod preswylwyr y nef yn gwybod pa beth sydd yn digwydd ar y ddaear. Oddiyma, ebe St. Paul, 1 Cor. iv. 9. wrth lefaru am dano ei hun a'i gyd-Apostolion, "Nyni a wnaethpwyd yn ddrych i'r byd, ac i'r Angelion, ac i ddynion."

4. Nis gallwn dybied ychwaith, fod yr Angelion a'r Seintiau, y rhai a fwynhânt oleuni gogoniant, yn anwybodus o'r cyfryw bethau, y rhai a wybu y prophwydi a gweision Duw yn fynych yn y byd hwn trwy oleuni grâs: ïe, a'r cythreuliaid eu hunain, trwy



oleuni natur yn unig: gan fod goleuni gogoniant yn berffeithiach o lawer na goleuni grâs, neu nattur, yn ol yr Apostol, 1 Cor. xiii. 12. "Canys gweled yr ydym yr awr hon trwy ddrych mewn dammeg; ond yna wyneb yn wyneb: Yn awr yr adwaen o ran; ond yna yr adnabydda megys y'm hadwaenir:" hyny yw, trwy berffeithiaf wybodaeth. Oddiyma, 1 Ioan iii. 2, mae yn ysgrifenedig, "ni a fyddwn yn gyffelyb iddo ef (Duw) oblegid ni a gawn ei weled ef megys ag y mae." Yn awr, y mae yn sicr i weision Duw, yn fynych yn y byd hwn, trwy ragorol oleuni Grâs, wybod y pethau a ddygwyddasant mewn lleoeddpell, megys Eliseus, 2 Bren. v. yr hwn a wybu pa beth a ddygwyddodd rhwng Naaman a'i was Gehasi. a 2 Bren. vi. pa beth a wnaethpwyd yn ystafell ddirgel Brenin Syria. Dilys hefyd yw, fod y cythreuliaid, trwy oleuni natur, yn gwybod beth sydd yn dygwydd yn ein mysg ni, fel mae yn ymddangos mewn gwahanol fanau o lyfr Job, a thrwy eu bod yn gyhuddwŷr i ni ger bron Duw, Datg. xii. 10. Gan hyny, nid allwn ammheu mewn rheswm, nad yw y Seintiau yn y Nef yn gwybod yr erfynion a gyfeiriwn attynt hwy.

5. Yn olaf, oblegid rheswm gwan yw, ymddadleu oddiwrth ein cylybod corfforol, (gwrthddrych yr hwn yw sŵn; hyny yw, cynnwrf neu derfysg yn yr awyr, yr hwn ni chyrhaedd tu hwnt i briodol encyd) at glybod Ysprydion, yr hwn sydd yn anmherthynasol i sŵn, ac felly yn anmherthynasol i bellder; er bod y dull o hono yn anhawdd ddigon i'w egluro i'r rhai na ddirnadant un clybod arall, onid yr eiddo y glust gorfforol.

Hol. A oes genych un warant arall o'r Ysgrythyr lân am ddeisyfiadau ar yr Angelion a'r Seintiau?

At. Oes mae genym angrhaifft oddiwrth weision goreu Duw; sef Jacob, Gen. xixviii. 15, 16. a ddeisyfodd

fendith ei Angel Ceidwad i'w ddau ŵyr, Ephraim a Manasseh: "Duw, yr hwn y rhodiodd fy nhadau Abraham ac Isaac ger ei fron, Duw, yr hwn a'm porthodd er pan ydwyf hyd y dydd hwn, yr Angel yr hwn a'm gwaredodd i oddiwrth bob drwg, a fendithio'r llangciau." Yr un peth a wnaeth Jacob, Hosea xii. 4. "wylodd, ac ymbiliodd ag Angel." A St. Ioan Dat. i. 4. wrth ysgrifenu at y saith Eglwys yn Asia (sydd yn erchi eiriolaeth y saith Angel penaf yn eu plaid: "Gras fyddo i chwi a thangnefedd oddiwrth yr hwn sydd, a'r hwn a fu, a'r hwn sydd ar ddyfod, ac oddiwrth y saith Yspryd sydd ger bron ei orseddfaingc ef."

## RHAN IV.

### *Am Greiriau.*

Hol. Beth a ddeallwch wrth Greiriau?

At. Cyrff neu Esgyrn y Seintiau, neu un peth arall ag oedd yn perthyn iddynt.

Hol. Pa sail sydd genych am roddi parch i Greiriau neu Relywiau y Seintiau?

At. Heblaw yr hen draddodiad, ac arfer y prif oesoedd, megys y tystiolaetha coffâon goreu hynafiaeth, fe ein hawdurdodwyd, i wneuthur felly, trwy lawer o wyrthiau hynod a wnaed wrth feddau, a thrwy Greiriau y Seintiau (Gwel St. Augustin, lib xxii. *am Ddinas Duw*, pen. viii.) Pa wyrthiau ni weithredasai Duw byth, yr hwn yw y Gwirionedd a santeiddrwydd ei hun, oni bae fod yr anrhydedd a delir i werthfawr Greiriau neu Relywiau ei weision santaidd yn gymeradwy ganddo ef.

Hol. A oes genych un angraifft yn yr Ysgrythyr Lân o wyrthiau a wnaed trwy greiriau y Seintiau?

At. Oes: nyni a ddarllenwn yn 2 Bren. xiii. 21. am wr a gyfodwyd o farw i fyw, trwy gyffwrdd ag esgyrn y



Prophwyd Eliseus: Ac Actau xix 12. "hyd oni ddygid at y cleifion oddiwrth ei gorff ef (Paul) Napcynnau neu foledau; a'r clefydau a ymadawent â hwynt; a'r Ysprydion drwg a aent allan o honynt."

## PENNOD IX.

### *Am Ddelwau*

Hol. Pa beth yw eich athrawiaeth ynghylch delwau?

At. Yr ydym yn dal, fod yn oddefol cael a chadw delwau neu ddarluniau o Grist, o'i Fendigedig fam y ddibaid Forwyn, ac o'r Seintiau eraill; a bod dyledus Barch ac Anrhydedd i'w rhoddi iddynt.

Hol. Onid ydych yn addoli delwau?

At. Nac ydym mewn un modd: os wrth addoli y deallwch anrhydedd dwyfol: canys nid ydym yn rhoddi hyny i'r Angel na'r Sant uchaf, nac hyd yn nod i'r Forwyn Fair, llawer llai i ddelwau.

Hol. Onid ydych yn gweddio ar ddelwau?

At. Nac ydym: Oblegid, fel y dysg ein Catecism, a synwyr cyffredin i ni, "nas gallant na'n clywed na'n gweled na'n cynnorthwyo ni." *Douay Catech.*

Hol. Paham ynte y gweddïwch o flaen Delw neu Lun y Groes

At. O blegyd golwg ar lûn da, neu ddelw, er angraifft, o Grist ar y Groes, sydd gymhorth i ennyn duwiolder yn ein calonau tu ag atto ef, yr hwn a'n carodd ni mor anfeidrol ag iddo roddi ei fywyd er ein mwyn ni.

Hol. Oni ddysgir i chwi ymddiried ac i hyderu mewn Delwau, fel y Paganiaid yn eu heulunod, fel pe byddai rhyw rinwedd, awdurdod, neu Dduwdod mewn delwau?

At. Na ddysgir yn ddïau. Eithr Cymmanfa Trent a

ddŷsg i ni yn eglur ddigon, y gwrthwyneb. *Sessiwn* xxv.

Hol. Pa fodd y profwch fod yn gyfreithlon i wneuthur neu i gadw Delwau Crist a'i Seintiau?

At. Oblegid Duw ei hun a orchymmynodd i Foses Ecsod. xxv. 18, 19, 20, 21. wneuthur dau Gerub o aur morthwyliedig, a'u gosod ar ddau ben y Drugareddfa, goruwch Arch y cyfammod, yn y cysegr ei hun. "Ac yno medd efe adn. 22. mi a gyfarfyddaf â thi, ac a lefaraf wrthyt oddiar y Drugareddfa, oddi rhwng y ddau Gerub a fyddant ar Arch y Dystiolaeth, yr holl bethau a orchymmynwyf wrthyt i feibion Israel." Duw hefyd a orchymmynodd, Numeri. xxi. 8, 9. wneuthur Sarff o brês, er iachâu y sawl a frethid gan y seirff tanllyd: Yr hon sarff oedd gynllun o Grist. Ioan iii. 14, 15.

Hol. Onid yw yn waharddedig, Ecsod. xx. 4., gwneuthur llun dim a'r y sydd yn y nefoedd uchod, neu ar y ddaear isod, neu yn y dyfroedd tan y ddaear?

At. Y mae yn waharddedig "gwneuthur i ni ein hunain," un fath o ddelw neu lûn; hyny yw, i'w wneuthur ef yn Dduw i ni, neu i roddi ein hymddiried ynddo ac i roddi iddo yr anrhydedd sydd yn perthyn i Dduw yn unig. Yr hyn a eglurir yn y geiriau canlynol; "Nac ymgryma iddynt;" (hyny yw, "Nac addola hwynt." Canys felly mae'r Septuagint, neu y saith deg Deonglwŷr, a'r Vulgate *Edition* yn ei gyfieithu) "Na wasanaetha hwynt." Yn amgen, pe byddai pob lluniau yn waharddedig, byddem yn rhwym i daflu i lawr ein harwydd-byst, ac i ddileu Bâth y Brenin.

Hol. Pa fath o anrhydedd y mae y Catholigion yn ei roddi i Ddelwau Crist a'i Seintiau?

At. Anrhydedd perthynasol.

Hol. Pa beth a ddeallwch wrth anrhydedd perthynasol?



At. Wrth anrhydedd perthynasol yr wyf yn deall anrhydedd a roddir i Beth, nid er un rhagoriaeth oddifewn, neu urddas yn y peth ei hun, ond yn unig o herwydd y berthynas sydd rhyngddo â rhyw beth arall, megys pan ymgryma Gwŷr y Llŷs i Gadair y Brenin, neu Gristionogion i Enw Iesu; yr hyn yw Llûn neu Ddelw er coffa o'n Hiachawdwr i'r Glust, fel y mae Llun y Groes i'r Llygad.

Hol. A oes genych un angraifft fod yr anrhydedd perthynasol yma yn oddefol gan y Protestaniaid?

At. Oes; yn yr anrhydedd a roddant i enw Iesu, i'w Heglwysi, i'r Allor, i'r Bibl, ac i'r arwyddion o Fara a Gwîn yn y Sacrament.

O'r cyfryw fath hefyd yr oedd yr anrhydedd a roddid gan yr Iuddewon i'r Arch, ac i'r Cerubiaid, ac a roddid gan Moses a Josua i'r Tir yr oeddyut yn sefyll arno, megys yr oedd yn "Ddaear Santaidd." Ecsod. iii. 5. Josua v. 15. &c.

Hol. Pa fodd y profwch fod perthynasol anrhydedd yn ddyledus i ddelwau neu luniau Crist a'i Seintiau?

At. Oddiwrth orchymmynion Duw, synwyr cyffredin a rheswm, yn gystal ag oddiwrth Dduwioldeb a chrefydd, y rhai a ddysgant i ni ddatgan ein cariad a'n parch i'r dynion a anrhydeddwn, trwy osod gwerth ar bob peth sydd iddynt, neu sydd yn dwyn perthynas iddynt: Fel hyn y parcha ac y gwerthfawroga deiliad ffyddlon, plentyn ufydd, a chyfaill anwyl, ddelwau neu luniau ei frenin, ei Dâd, neu ei gyfaill; a'r rhai ni wnaent un petrusder cydwybodol o wneuthur anmharch i lun Crist, a gospant yn llym y dŷn a anmharchai lun eu brenin.

Hol. A ydyw eich Eglwys yn caniatâu delwau o Dduw y Tad, neu o'r Drindod Fendigedig?

At. Nid yw proffes y Ffydd yn crybwyll am y fath luniau; etto nid ydym yn tybied eu bod

hwynt yn anghyfreithlon, oddieithr y deallir eu bod yn dwyn cyffelybiaeth neu debygoliaeth o'r Duwdod, yr hwn nid ellir ei ddangos na'i draethu mewn lliwiau, na'i arwyddocâu trwy un gwneuthuriad dynol. Eithr megys na wna y Protestaniaid un petrusder o baentio yr Yspryd Glân dan rith Colomen, oblegid iddo ymddangos felly pan fedyddiwyd Crist; St. Matt. iii. 16. felly nid ydym ninnau mewn blinder meddwl ynghylch paentio Duw y Tâd dan rith Hên ŵr urddasol, o herwydd iddo ymddangos yn y wedd hon i'r Prophwyd Daniel. Pen. vii. 9.

## PENNOD X.

*Am Faddeuant, neu Indwlgens.*

Pa beth a feddyliwch wrth faddeuant?

At. Nid caniatâd i wneuthur pechod, na maddeuant am bechodau i ddyfod, ond rhyddhâd yn unig, trwy awdurdod yr allweddau a gyflwynwyd i'r Eglwys, oddiwrth ddyled y gospedigaeth amserol, yr hon allai fod yn ddyledus o achos ein pechodau, ar ol cael eisoes ryddhâd neu faddeuant o'r pechodau eu hunain, (o ran yr euogrwydd a'r gospedigaeth dragywyddol) trwy edifeirwch, cyffes a gollyngdod.

Hol. A allwch chwi brofi o'r Ysgrythyr Lân, fod cospedigaeth yn fynych yn ddyledus o achos ein pechodau, ar ol cael maddeuant o'r pechodau eu hunain?

At. Gallaf; a hyn sydd eglur yn achos y Brenin Dafydd Bren. ii. 12. lle mae'r Prophwyd Nathan, er iddo ar ei edifeirwch ddywedyd wrtho ef, adn. 13. "Yr Arglwydd a dynodd ymaith dy bechod di;" etto yn datgan iddo lawer o gospedigaethau dychrynllyd, adn. 10, 11, 12, 14. y rhai a fwriwyd arno o herwydd y pechod atgas hwn; ac a ddygwyddasant iddo, yn ol ei air.



Hol. Pa beth yw ffydd eich Eglwys ynghylch maddeuant?

At. Mae yn gynnwysedig yn y geiriau hyn o broffes ein ffydd: Yr wyf yn haeru, fod yr awdurdod o faddeuant wedi cael ei adael gan Grist yn ei Eglwys; a bod yr arfer o hono yn iachusol i bobloedd Cristionogol.

Hol. Ar ba Ysgrythyr y sylfaenwch hyn?

At. Yr awdurdod i ganiatâu maddeuant a adawyd gan Grist i'r Eglwys, St. Math. xvi. 19. "A rhoddaf i ti agoriadau (allweddau) teyrnas Nefoedd: a pha beth bynag a rwymech ar y ddaear, a fydd rhwymedig yn y Nefoedd; a pha beth bynag a ryddhâech ar y ddaear, a fydd wedi ei ryddhâu yn y Nefoedd." Ac y mae genym angraifft yn yr Ysgrythyr Lân i St. Paul roddi maddeuant i'r Corinthiad a ddododd efe dan Benyd o herwydd anlladrwydd, 2 Cor. 11. 10. "I'r hwn yr ydych yn maddeu dim iddo." (mae efe yn llefaru am y pechadur anllad, o blaid yr hwn yr oedd efe wedi dymuno arnynt ei dderbyn yr awr hon) "yr wyf finnau: canys os maddeuais ddim, i'r hwn y maddeuais, er eich mwyn chwi y maddeuais, yn mherson Crist; hyny yw, trwy y gallu a'r awdurdod a dderbyniwyd oddiwrtho ef.

## PEN. XI.

*Am Benaduriaeth St. Pedr a'i ddilynwyr.*

Hol. Pa beth yw yr athrawiaeth Gatholig ynghylch Penaduriaeth y Pab?

At. Y mae yn gynnwysedig yn yr Erthyglau hyn:

1. Fod St. Pedr wedi ei osod, trwy ddwyfol ordeiniad, yn Ben ar yr Eglwys dan Grist.

2. Fod y Pab, neu Esgob Rhufain, megys Dilynwr

i St. Pedr, yr awr hon yn Ben ar yr Eglwys, a Rhaglaw Crist ar y ddaear.

Hol. Pa fodd y profwch Benaduriaeth St. Pedr?

At. Yn gyntaf, oddiwrth yr Enw Pedr, neu Cephas; ystyr pa air yw, Careg neu Graig; pa Enw ein Harglwydd, yr hwn nid yw yn gwneuthur dim heb reswm, a roddodd iddo ef a elwid cyn hyny Simon; i arwyddocâu, y byddai efe fel craig, neu sylfaen, ar yr hon yr adeiliadai efe ei Eglwys. Yn ol yr hyn a hyspysodd efe ei hun St. Matth, xvi. 18, pan ddywedodd wrtho, "Ti yw Pedr; (hyny yw, Craig) ac ar y Graig hon yr adeiladaf fy Eglwys, a phyrth Uffern nis gorchfygant hi."

Yn ail, oddiwrth y geiriau canlynol St. Matth. xvi. 19, "A rhoddaf i ti Agoriadau Teyrnas Nefoedd; a pha beth bynag a rwymech ar y ddaear, a fydd rhwymedig yn y Nefoedd: a pha beth bynag a ryddhâech ar y ddaear, a fydd wedi ei ryddhâu yn y Nefoedd." Yn mha le, dan rith Agoriadau Teyrnas Nefoedd, y cyflwynodd ein Harglwydd i Bedr yr awdurdod penaf yn ei Eglwys; megys pan roddo Brenin i un o'i swyddogion Agoriadau (neu Allweddau) Dinas, y mae efe wrth hyny yn hyspysu, ei fod yn ei wneuthur, neu yn ei osod, yn llywodraethwr ar y Ddinas hono.

Yn Drydydd, O St. Luc xxii. 31, 32. "A'r Arglwydd a ddywedodd, Simon, Simon, wele, Satan a'ch ceisiodd chwi, i'ch nithio fel gwenith: Eithr mi a weddïais drosot, fel na ddiffygiai dy ffydd di; a thithau pan y'th dröer, cadarnhâ dy Frodyr." Yn mha destun yr hyspysodd ein Harglwydd nid yn unig ei neillduol ofal am Bedr, trwy weddïo drosto, na ddiffygiai ei Ffydd; ond hefyd a gyflwynodd iddo ef ofal ei Frodyr, yr Apostolion eraill, trwy orchymmyn iddo eu cyfnerthu, neu eu cadarnhâu hwynt.



Yn Bedwerydd, O St. Ioan xxi. 15, &c. Yr Iesu "a ddywedodd wrth" Simon Pedr, "Simon mab Jona, "a wyt ti yn fy ngharu i yn fwy na'r rhai hyn? Dywedodd yntau wrtho, ydwyf, Arglwydd: Ti a wyddost fy mod yn dy garu di. Dywedodd yntau wrtho, Portha fy wŷn. Efe a ddywedodd wrtho drachefn yr ail waith, Simon mab Jona, a wyt ti yn fy ngharu i? Dywedodd yntau wrtho, Ydwyf, Arglwydd, ti a wyddost fy mod yn dy garu di. Dywedodd yntau wrtho, Portha fy wŷn. Efe a ddywedodd wrtho y drydedd waith, Simon mab Jona, a wyt ti yn fy ngharu i? Pedr a dristâodd, am iddo ddywedyd wrtho y drydedd waith, a wyt ti yn fy ngharu i? Ac efe a ddywedodd wrtho, Arglwydd, ti a wyddost bob peth: ti a wyddost fy mod i yn dy garu di. Yr Iesu a ddywedodd wrtho, Bugeilia fy Nefaid." Yma ein Harglwydd mewn modd arbenig, dair gwaith a gyflwynodd i Bedr y gofal o'i holl ddiadell, o'i holl Ddefaid, yn ddinam; hyny yw, o'i holl Eglwys.

Hol. Pa fodd y profwch fod y swyddogaeth yma a roddwyd i Bedr, yn disgyn i'r Pab, neu Esgob Rhufain?

At. Oblegid trwy unfryd gyttundeb y Tadau, a Thraddodiad yr Eglwys yn mhob oes, Esgobion Rhufain ydynt ddilynwŷr i St. Pedr, yr hwn a symmudodd ei Gadair o Antioch i Rufain, ac a fu farw yn Esgob Rhufain. Oddiyma Gorseddfa Rhufain yn mhob oes a elwir Gorseddfa Pedr, Cadair Pedr, ac yn ddilys, yr Orseddfa Apostolaidd. Ac yn y gradd hwn, yr ymarferodd hi er y dechreuad lywodraeth dros yr holl Eglwysi eraill; megys yr ymddengys oddiwrth Dystiolaethau goreu Hen Hanes Eglwysaidd. Heblaw hyny, drwy gyfaddef Penaduriaeth St. Pedr, yr hon a brofasom uchod o'r Ysgrythyr Lân, mae yn rhaid i ddyn yn ganlynol ganiatâu, nad oedd y Benaduriaeth

hon, a sefydlodd Crist er gwell Rheolaeth ei Eglwys, ac i gynnal undeb, ddim i farw gyda Phedr, mwy na'r Eglwys, yr hon yn ol ei addewid ef a safai yn dragywydd. Canys, pa fodd y gall un Cristion ddychymygu y gosodai Crist Benadur er Rheolaeth ei Eglwys, ac i gynnal Undeb dros amser yr Apostolion, ac yr arfaethai fath arall o reolaeth i'r oesoedd canlynol, pan yn ol pob tŷb, y byddai mwy o eisiau Pen arnynt? Gan hyny rhaid i ni gyfaddef, fod Penaduriaeth St. Pedr, trwy ddilyniad, i ddisgyn i ryw un. Yn awr, mi a ddymunwn yn fawr wybod, pwy sydd a chan decced hawl i'r Dilyniad hwn, ag sydd gan Esgob Rhufain?

Hol. Paham y gelwch Eglwys Rhufain yn Fam ac Arglwyddes yr Eglwysi oll?

At. Oblegid fel y gwelsom eisoes, ei Hesgob hi yw Dilynwr St. Pedr, a Rhaglaw Crist ar y Ddaear; ac, yn ganlynol, Tad a Bugail yr holl Ffyddloniaid, ac felly, gan fod yr Eglwys hon yn orseddfa Pedr, hi yw Mam ac Arglwyddes yr holl Eglwysi.

## DIWEDD-GLO.

Hol. A oes genych un peth ychwaneg er cadarnhâd o'r holl bynciau cynnwysedig yn eich Proffes o Ffydd?

At. Ni angwhanegaf ddim mwy na hyn; Gan i mi brofi eisoes, yn y Bennod gyntaf, mai yr Eglwys mewn cydundeb â Rhufain yw y wir ac unig Eglwys Crist, ac yn ganlynol ei chymanfaoedd hi, a'i bugeiliaid ydynt Gyfarwyddwyr o ordinhâd ddwyfol, y rhai a osododd Crist i'n harwain a'n tywys yn y ffordd i ddedwyddwch tragywyddol, mae yn canlyn, y dylem ni, heb ddim pedrusder pellach, gredu a phroffesu, pa beth bynag



y mae'r Eglwys Lân Gatholig a'i bugeiliaid hi yn ei gredu a phroffesu; ac ymwrthod a llysu pa beth bynag y maent hwy yn ei lysu ac yn ei wrthod: Gan sicrhâu ein hunain, wrth wneuthur felly y byddwn yn ddïogel; o herwydd nyni a ddilynwn y cyfarwyddwyr hyny a osododd Crist ei hun, y rhai a orchymmynodd efe i ni eu gwrando, gyda'r rhai yr addawodd efe aros hyd ddiwedd y byd.

Hol. Paham yr ydych yn eich Proffes o Ffydd yn dadgan eich derbyniad neillduol o athrawiaeth Cymanfa Trent?

At. Oblegid hon oedd y Gymanfa neu y cynghor cyffredin olaf, a alwyd mewn cyferbyniad neu yn wrthwyneb i athrawiaethau newydd Luther a Chalfin: Gan hyny, yr ydym yn datgan ein cydsyniad arbenig â deddfau y Gymanfa hon, a annelwyd yn erbyn y cyfeiliornadau hyny, a fuont helaethaf yn yr oesoedd diweddaf.

Bydded i Dduw yr Undeb, Heddwch, a Gwirionedd gyfarwyddo y Cristionogion oll, o'i anfeidrol drugaredd, i Undeb, Heddwch a Gwirionedd. Amen.

## ANGWHANEGIAD.

Yn mhellach, Os bydd ewyllys genych i adnabod y wir Eglwys, gwrandewch ar gyfarwyddyd un o Eglwys Loegr:

Gwelwch yma gynnullion crêd; ystyriwch, mewn byr eiriau, ddeniadau rhesymgar a osodir ger bron llygaid pobl y byd, i'w hannog i gofleidio ac i gadw y Ffydd Gatholig. Y deniadau hyn, yn ol Doctor Jeremiah Taylor, Protestant dysgedig, yn ei lyfr (*of Proph. Sect.* 20. *p.* 249, 250.) "a annogant bobl o fawr reswm, ac o fwy o dduwioldeb, yn hawdd iawn, i gadw yr hyn a wyddant ei fod yn grefydd eu cyn Dadau; yr

hon oedd ganddi feddiant o feddyliau a dealldwriaethau dynion, cyn i un broffes wrthwynebol gael ei henw yn y byd. Tu dal. 251.

1. "Yr wyf yn meddwl, eb efe, t. d. 249, (am yr athrawiaethau hyny a gawsant hir barhâd a meddiant yn yr Eglwys,) nas gellir tybied yn hawdd eu bod yn amcan drwg un y Proffeswyr presennol, o herwydd iddynt hwy eu derbyn oddiwrth gynnifer o oesoedd. Hir feddiant sydd ragfarn yn fynych mor anorchfygol, nas gellir ei lleihâu â rhesymau lawer; gan ei fod yn gorphwys ar y seiliau hyn: fod gwirionedd yn hynach nag anwiredd; na wrthododd Duw ei Eglwys dros gynnifer o oesoedd, a'i gadael hi mewn amryfusedd a chyfeiliornadau; a pha beth bynag sydd newydd, nid yw yn unig yn ddrwgdybus, ond anwir hefyd: Tŷb dduwiol a chymeradwy ddigon yw." Nyni a brofasom, fod y pethau hyn nid yn unig yn dŷb duwiol a chymeradwy, ond eglur athrawiaeth Gair Duw. yn y Ben. I. Rhan I. a'r III. At hyn y mae efe yn angwhanegu deniadau eraill i wir gred; sef,

2. "Prydferthwch a disgleirdeb eu Heglwys; eu mawrhyddig wasanaeth; Gwychder Edmyg a Heddwch ei Llywodraeth Eglwysaidd."

3. Eu Henw o Gatholig; yr hwn a dybiant sydd yn eiddo iddynt hwy yn unig." Mae ganddynt reswm yn sicr i dybied felly, os gall y meddiant o fil ac wyth cant o flynyddoedd ei wneuthur yn eiddo iddynt. "Mor agos y glŷn yr Enw hwn wrthynt, fel nad all eu gwrthwynebwyr beidio a'i roddi iddynt ar lawer achlysur."

4. "Hynafiaeth llawer o'u Hathrawiaethau." Fe ddylasai ddywedyd, o'u dysgeidiaeth oll; ond nid ellid disgwyl hyn gan Brotestant.

5. "Dilyniad parhâus o'u Hesgobion; a'u deilliad digyfrwng oddiwrth yr Apostolion."

6. "Eu Hawl i ddilyn St. Pedr; Tŷb a honiad ei Ragorfraint bersonol;" yn adeiledig ar yr Ysgrythyr Lân; megys y gwelsom yn y ben. xi. gan hyny nid honiad ofer yw.



7. "Lliosawgrwydd ac amrywiaeth y bobl sydd o'u cred hwynt."

8. "Ymddangosiadol gydundeb ag Hynafiaeth mewn llawer o Seremonïau a wrthododd yr Eglwysi eraill: a honiadol ac weithiau ymddangosiadol gydundeb â rhai o'r hen oesoedd mewn llawer o faterion athrawiaethol." Mae efe yma yn lledguddio y peth, rhag ofn canaitâu gormod, etto nid all wadu nad yw hybarchus Hynafiaeth o blaid y Catholig yn amlwg.

9. "Mawr gyd-undeb rhwng y naill ran â'r llall yn y peth y mae'r rhan fwyaf o honynt yn ei haeru ei fod o ffydd. Y mawr anghydfod yn mysg eu gwrthwynebwyr." Prif Dadau a Dŷsgawdwŷr, y rhai er dechreuad eu ffugiol neu ledrithiol ddiwygiad (fel y gelwir) a aethant yn gwbl mewn amryw ffyrdd oddiwrth eu gilydd hyd at gyflawn rwygiad cariad, cymun, a chymdeithas, fel nas gellid hyd yn hyn ei adnewyddu.

10. "Eu Hapusrwydd o fod yn offerynau troad amryw Bobl neu genhedloedd i'r ffydd Gristionogol," yn gymaint nad argyhoeddodd neb o'r Eglwysi diwygiadol un deyrnas erioed i'r ffydd.

11. "Sancteiddrwydd a llymdoster eu crefyddol Raddau o wŷr a benywod: Buchedd unigol eu Hoffeiriaid a'u Hesgobion: Gerwindeb eu hymprydiau a'u defodau allanol." Y daionus "ddiwygiad" a lysodd yr holl bethau hyn.

12. "Mawr ragoriaeth a bri eu Hesgobion cyntaf am ffydd a phurdeb: Hynod Santeiddrwydd rhai o'r Dynion hyny, gosodiadau y rhai mae y gwyr Crefyddol yn amcanu eu dilyn."

13. "Eu Gwyrthiau, gwir neu anwir," medd y Doctor, Gwir, meddaf innau, os gellir rhoi Cred i

dystiolaethau mwyaf dilys neu ddiammheuol yr holl oesoedd, a phob cenedl.

14. "Y Tramgwyddiadau a'r damweiniau a ddigwyddasant i'w gwrthwynebwyr." Tebyg fod y Doctor yn meddwl am y cyfryw bethau a'r rhai'n; sef, disymmwth farwolaeth Luther, ar ol Swpper helaethlawn; Cwymp Suinglius mewn brwydr, a'i gleddyf yn ei law, i amddiffyn ei Efengyl newydd; Oecolampadius, yr hwn, a gaed yn farw yn ei wely, wedi ei orthrechu, medd Luther, yn ei Lyfr (*de Missa privata et Unct. Sacerd. T. 7. Mit. fol.* 283.) gan y diafol; Marwolaeth Calfin o anghynnefin gymysg glefydon, yr hwn a ddifâwyd yn fyw gan bryfed, &c.

15 "Twyll ac osgo, ac anghyfiawn ddichell rhai o'r dynion hyny a ymadawsant â hwynt." Trwy lygru yn amlwg yr Ysyrythyr Lân, o herwydd felly y gwnaeth y Protestaniaid cyntaf yn eu holl gyfieithiadau, i wneuthur iddi gydgordio â'u hamryfuseddau hwynt; trwy adrodd testynau y Tadau a'r Ysgrifenyddion Eglwysig yn anghywir; trwy enllibio a goganu beunydd yn eu Pregethau a'u llyfrau, yr Eglwys Lân Gatholig a'i dysgeidiaeth; oddiwrth eu camwedd a'r bai hwn, nid yw y Doctor ei hun yn rhydd, &c. Myfi a aethum heibio i rai pethau eraill o ychydig bwys, a ddywedodd efe yn yr un fan; ac yn awr dymunaf yn unig ar y y darllenydd gymharu y seiliau crêd y rhui (trwy gennad y Doctor, yr hwn a glodforir gymmaint gan yr holl Brotestaniaid) a ddylant yn awr gadw y Catholigion yn nghrefydd eu hynafiaid, â'r annogaethau a'r rhesymau a roddodd St. Augustin drosto ei hun, un mil a phedwar cant o flynyddoedd cyn hyn, yn erbyn yr hereticiaid yn ei amser ef: a thrwy y rhwymau hyn, fel y mynega efe ei hun, y cadwyd ac yr attaliwyd ef yn yr Eglwys Gatholig. (*C. contra Epist. Fand. C.* 4.) "Heb sôn, eb efe, am y wir ddoethineb, yr hon nid ydych chwi yn credu ei bod yn yr Eglwys Gatholig; mae, heblaw hyn lawer o bethau eraill, y rhai yn gyfiawnaf oll sydd raid iddynt fy nal i yn ei chymundeb hi.



1. "Cydundeb pobloedd a theyrnasoedd." 2. Ei hawdurdod hi a ddechreuwyd trwy wyrthiau neu ryfeddodau, a fagwyd trwy obaith, a gynnyddwyd drwy gariad, a gadarnhâwyd trwy hynafiaeth. 3. Olyniad ei Hesgobion yn deillio oddiwrth yr Apostol Pedr, i'r hwn y cyflwynodd Crist ei ddefaid ar ol ei adgyfodiad, hyd at yr Esgob sydd yn eistedd yn nghadair Pedr y dydd hwn. Yn olaf yr enw o Gatholig ei hun, o ba enw y darfu yr Eglwys hon yn unig, nid heb reswm, gadw y fath feddiant: fel er bod yr Hereticiaid oll yn dymuno cael eu galw yn Gatholigion; etto, pe gofynai estron iddynt, yn mha le y mae Eglwys y Catholigion, nid oes neb o honynt â gwyneb i ddangos â'u bŷs eu Heglwys eu hun neu gyfarfod tŷ."

Y rhai hyn oeddynt seiliau a rhesymau St. Augustin am fod yn Gatholig; a'r un yw yr eiddom ninau.

Heblaw hyny nis gallwn wenieithio, nad oedd llawer o amgylchiadau arswydus yn holl drefniad y diwygiad, y rhai a'n brawychant, rhag ei gofleidio, pa golledion amserol bynag a orfydd i ni eu goddef, trwy y gweithrediad.

1. Ni roddodd y diwygiwr cyntaf, Martin Luther, ddim o ragorol addysg yn ei fuchedd a'i ymddygiad. Yn y gwrthwyneb, ei holl weithredoedd a yspysant ei fod ef yn ddyn o anian anghymeradwy, ystyfnig, hunangar, anoddefus o wrthddywediad, llym ac angerddol, brwd a chynddeiriog yn ei areithiau yn erbyn y rhai oll, o ba radd bynag, a neillduent oddiwrtho, neu anghydunent yn y peth lleiaf ag ef. Ond y peth mwyaf gwarthus yn yr hudolaidd adnewyddwr hwn o burdeb crefydd, oedd, ei briodas â mynaches, ar ol eu difrifaf addunedau,

trwy ba rai yr oedd efe a hithau wedi cysegru eu hunain i Dduw mewn ystâd o ddiweirdeb parhaol. Yn y peth godinebus hwn y tebygolwyd ef gan y rhan fwyaf o weinidogion cyntaf y grefydd newydd.

2. Efe a'i gyfeillion cyntaf oeddynt yn sicr yn schismaticiaid, oblegid hwy a neilltuasant eu hunain pa rai oeddynt y pryd hyny ar y ddaear; ac a safasant oddiwrth yr holl Eglwysi glân neu aflan, gwir neu anwir, ar eu penau eu hunain yn unig. Am hyny os oedd y fath beth yn y byd y pryd hyny, a gwir Eglwys Crist, (megys y mae'n rhaid bod bob amser, os ydyw yr Ysgrythyr Lân, a'r Credo yn wir) yna mae yn rhaid ddarfod i Luther a'i gyfeillion, trwy ymneilltuo oddiwrth yr holl Eglwysi, ddidoli eu hunain oddiwrth y wir Eglwys; ac yn ganlynol, dir yw, mai schismaticiaid oeddynt. "Ar y cyntaf," ebe Luther, mewn Rhagymadrodd i'w ysgrifeniadau ei hun, "yr oeddwn wrthyf fy hun." Yr un peth a grybwyllir gan Dr. Tilloston, *Serm.* 49. *p.* 588. ac y mae Mr. Colier, yn ei Eirlyfr hanesol dan y gair "Martin Luther," yn clodfori ei fawrfryd, "Am iddo ef ei hun ymosod yn erbyn yr holl fyd."

3. Mae yn eglur oddiwrth ei (Lyfr *de Miss. Privata et Unct. Sacerd. T.* 7. *Wit. Fol.* 288, &c.) iddo ef ddysgu rhan nid bechan o'i "ddiwygiad" oddiwrth Dad y celwydd, mewn nosol ymddiddan ag ef; am yr hyn y mae yn rhoi hanes yno o hono ei hun i'w ddarllenwyr. Gwel. 1 Tim. iv. adnod 1.

4. Y rhai a gymerasant fwyaf o boen a gofal i daenu y "Diwygiad," yn yr Ynys hon, oeddynt y rhan fwyaf o honynt yn ddynion a gair anfad iddynt; sef, y Brenin Harri yr viii. a phen Rheolwyr y deyruas tra yr ydoedd Edward vi. dan oed, heb son am weinidogaeth fydol y frenhines Elizabeth, "y waethaf oll," medd hanesydd Protestanaidd diweddar, "a r a adwaenwyd erioed dan un teyrnasiad." (*A short View of Engl. Hist. p.* 273.)

Sail y "diwygiad" yn Lloegr, a Chymru, a osodwyd trwy amryw gysegr-ladradau, trwy dynu i'r llawr fonachlogydd, a thai eraill cysegredig i Dduw; trwy anrheithio ac yspeilio Eglwysi, trwy ddidoli tiroedd yr Eglwys, &c., Megys y gwelir yn hanes y diwygiad; gan Doctor Heylin. Gwel. 2. Timotheus iii. adnod 1, 8.

6. Y diwygiad a dywyswyd i mewn yn mhob man trwy lŷg-awdurdod, a chan mwyaf trwy wrthwynebiad uniongyrchol, trwy ddirmyg a diystyrwch o'r Esgobion, cyfarwyddwyr yr Eglwys yn ol gosodedigaeth ddwyfol. Gwaith afreolus, ac anghyfiawn amlwg, a pheth camweddus oedd i wyr llŷg mewn materion Eglwysig gydag ychydig o'r îs radd o Eglwyswyr, a'r rhai hyny hefyd dan farnedigaethau Eglwysig, ryfygu cyfarwyddo y rhai a osododd Crist yn dywysogion nefol iddynt hwy. Gwel 2 Petr. ii. adnod 1 hyd at y 4.

7. Lloegr ei hun, yr hon sydd yn ymffrostio yn nghymedrolder ei diwygiad (mewn cymhariaeth i derfysgus a gwrthryfelgar gychwyniad y diwygwyr tramor) sydd ddyledus am sefydliad presennol ei Heglwys i lŷg-awdurdod y frenhines Elizabeth a'i senedd, o anfodd yr holl Esgobion ag oeddynt ar hyny o bryd yn eistedd (y rhai oll ond un a symudwyd o'u lleoedd am eu hanghydffurfiad) yn nghyd a'r holl gymanfa, a'r ddwy brifysgol; hyny yw mewn un gair, yn wrthwyneb i oll wyr llên, neu Eglwyswyr y deyrnas; fel yr ymddengys oddiwrth *Fuller, l. g. a Dr. Heylin, Hist. of the Ref. p.* 285, 286.

8. Yn mha le bynag y pregethwyd yr Efengyl newydd, ni ddygodd yn mlaen ddim ond cynnen, ymryson, terfysg, a gwrthryfel, &c. fel y dengys hanes yr amseroedd hyny. Yn gymaint ag yn Ffraingc yn unig, yr Efengylwyr newydd, heblaw aneirif o gynddareddau

eraill, fel y dywedir, a ddinystriasant ddim llai nag ugain mil o Eglwysi. "*Jerusalem and Babel.*" p. 158, Mor annhebyg oedd y cyfryw ddiwygiad i sefydliad cyntaf Eglwys Crist.

9. Ffrwythau y "diwygiad" oeddynt y cyfryw, nad allent mewn un modd dyfu ar bren da; sef, 1. Grawn aneirif o heresiau, 2. Ymryson diderfyn. 3. Ysfa wastadol am newidiaeth ac anwadalwch yn eu dysgeidiaeth. 4. Atheistiaeth, Deistiaeth, penrhyddid, a digywilydd annuwioldeb: mewn byr eiriau, cyfnewidiad cyhoedd o foesau er gwaeth, megys y mae bagad o'u rhwydd ysgrifenwyr yn cyfaddef, a'r hên Erasmus, er ystalm o amser, a ddannododd hyn iddynt, *Ep. ad Vultur.* ac yno y mae yn eu hannog i ddangos cymaint ag un a ddychwelodd o fuchedd aflan a drygioni trwy gofleido eu crefydd; a mynega, na chyfarfyddodd ag un erioed, yr hwn nid oedd wedi ei newid er gwaeth.

10. Y grefydd hono yw yr oreu i *fyw* ynddi, yr hon yw y ddïogelaf i *farw* ynddi; a hyny yn ol barn dynion ar eu gwely angeu, y rhai nid ydynt debygol, ar hyn o bryd, o gael eu tueddu gan elw, gwagfryd neu wŷn. Yn awr, y mae yn sicr i filoedd a fuant fyw yn Brotestaniaid ddymuno marw yn Gatholigion; ac erioed etto ni ddymunodd un a fu fyw yn Gatholig, farw yn Brotestant: Am hyny gwell a diogelach yw i ni aros lle yr ydym.

11. Y Grefydd hono sydd yn rhagori ar bob un, athrawiaeth a phregethiad yr hon sydd, ac a fu bob amser, yn fwy nerthol ac effeithiol i dynu ymaith feddyliau dynion oddiwrth bethau darfodedig y byd hwn, ac i'w sefydlu hwynt yn gwbl ar fawr orchwyl tragywyddoldeb, ond y cyfryw yw athrawiaeth a phregethiad yr Eglwys Gatholig, megys y tystiolaetha y dyrfa fawr o wyr crefyddol yn ein Heglwys, y rhai



â ymadawsant, o'u gwir fodd eu hunain, â'u holl elw bydol i ba un yr oedd eu genedigaeth, a'u tylwyth, a'u golud yn rhoi hawl iddynt; ac a adawsant bob gobaith daearol er cariad y Nef. Ni ddygodd "y diwygiad," erioed etto y cyfryw ffrwyth.

12. Yr oedd gwir ffydd gadwedigol yn nyddiau ein Tadau gynt, cyn amser y lledrithiog ddiwygiad." trwy ba un yr aeth yn sicr rifedi mawr i ddedwydd borthladd y gwynfyd tragywyddol. Ein hanesion sydd yn llawn esiamplau o gariad, santeiddrwydd, a duwioldeb ein breninoedd, Esgobion, ac eraill o'r Hên Ffydd. Gan hyny, sicrach yw dilyn yr Hên Ffydd, na gosod ein heneidiau mewn perygl ar gymundeb newydd godi.

13. Yr holl hên ymhònwyr i "Ddiwygiad," (hyny yw, y rhai oll a anturiasant erioed naill ai i newid neu i ddiwygio Ffydd yr Eglwys) a farnwyd gan yr hên Eglwys fel hereticiaid; ac o'r cyfryw fath y cyfaddefir eu bod gan Brotestaniaid eu hunain. Fel hyn, y mae genym gyfiawn reswm i ofni, rhag i Brotestaniaid, wrth gerdded yr un llwybr, gael eu rhwydo gan yr un aflwydd.

14. I ddybenu, Protestaniaid, er amddiffyn eu "diwygiad" (yr hwn a gollfarnwyd ar ei ymddangosiad cyntaf gan gyfarwyddwyr yr Eglwys o Ddwyfol ordinhâd,) a yrir i redeg at reol Ffydd, yr hon pe caniateid iddynt, a osodai yr holl Hereticiaid (Hen a Newydd) allan o gyrhaedd awdurdod yr Eglwys. At y fath frawdle, neu orsedd, y gyrir hwynt, oddiwrth yr hon y mae yn anmhosibl i un Sectarian, neu ddyn o neillduol dŷb mewn crefydd, dderbyn barnedigaeth. Y cyfryw reol, y cyfryw frawdle yw yr Ysgrythyr, pan ei deonglir nid trwy awdurdod cyfarwyddwyr Eglwysig, ond yn ol prïodol farn pob dyn; eithr hyn yn ddilys yw gwneuthur pob un yn farnwr neu brif ynad nid yn unig ar yr Ysgrythyr Lân, ond ar bob ymrafaelion mewn

crefydd, gan ei awdurdodi i gyfrif yn well a pharchu ei ynfydrwydd ei hun yn fwy na barn yr holl Eglwys. A allai y fath beth gydsefyll a doethineb rhagluniaeth Duw, sef, bod iddo adael ei Eglwys heb ryw sicrach moddion i derfynu amrafaelion, neu i dori ymryson yn nghylch crefydd, a chadw undeb? Nac allai yn ddilys. Gwel. 2 Pedr. iii. adnod 16, 17, &c.

## RHESYMAU.

### *Paham nad all Catholig Rhufeinig gyd-synio a'r Eglwys Brotestanaidd.*

1, Oblegid y mae y grefydd Brotestanaidd yn grefydd newydd, o'r hon nid oedd hanfod yn y byd, cyn un mil a phum cant o flynyddoedd yn ol Crist; gan hyny hi a ddaeth un mil a phum cant o flynyddoedd yn rhy hwyr i fod yn wir Eglwys Crist. Martin Luther a osododd sylfaen gyntaf y grefydd Brotestanaidd yn y flwyddyn 1517, a'i ddilynwyr a gymerasant yr enw Protestaniaid yn y flwyddyn 1529; cyn yr amser hyny, ni chlybuwyd am y grefydd, nac am yr enw yn y byd Cristionogol; a ni a roddwn hèr i'r holl ddysgedigion yn eu mysg, i enwi cymaint ag un dyn o flaen Luther, yr hwn a ddaliodd drwy eu 39 Erthyglau, neu unrhyw gyfundraeth o Brotestaniaeth, megys ag y proffesir hi yn awr yn unrhyw fan ar y ddaear. Yn awr pa fodd y gall hòno fod yn Eglwys Crist, i'r hon nid oedd hanfodiad yn y bŷd am gynnifer o oesoedd, yn gymaint a bod yr holl Gristionogion yn gorfod addef nad all gwir Eglwys Crist fod yr un arall ond hono, ag a gafodd ei dechreuad oddiwrth Grist; ac megys yr addawodd efe, y safai yn dragywydd. Gwel Matt. xvi. 18. a Matt. xxviii. 20.

2. Oblegid nad all y grefydd Brotestanaidd fod yn wir, oddieithr i'r holl Ysgrythyr, yr hên Destament a'r newydd o'r dechreu i'r diwedd fod yn dywyllodrus, yr hon a'n sicrhâ mewn cynnifer o fanau nad elai Eglwys Crist byth ar gyfeiliorn; oblegid pawb a wyddant fod y grefydd Brotestanaidd yn cymeryd arni fod yn "ddiwygiad" o Eglwys Crist, ac y mae yn eglur, nad allai fod lle i ddiwygiad o Eglwys Crist, oddieithr i'r Eglwys fyned ar gyfeiliorn: Felly mae holl adeilad eu ffug "ddiwygiad Eglwysig" wedi eu sylfaenu ar y dybiaeth yma, fod yr holl Eglwys, cyn amser Luther, wedi llygru trwy gyfeiliornadau damniol. Gwyr llŷg a gwyr llen (medd eu llyfr homiliau, a gymeradwywyd trwy eu 39 Erthyglau, Erthygl. 25) "dysgedig ac annysgedig; pob oesoedd, pleidiau, a graddau o ddynion, gwragedd a phlant yr holl fyd Cristionogol, (peth ofnadwy ac erchyll i feddwl am dano) a fuont ar unwaith wedi eu boddi mewn eilun-addoliaeth ffiaidd; yr atgasaf gan Dduw o bob twyll arall, a damniol i ddyn, a hyny am yr yspaid o wyth cant o flynyddoedd ac ychwaneg." *Hom. am berygl delw addoliad. Rhan* 3.

Yn awr, meddaf, os yw hyn yn wir, yr hyn yw sylfaen benaf yr Eglwys Brotestanaidd, rhaid i'r Ysgrythyr, (yn yr hon y mae cynnifer o addewidion, na fydd Eglwys Crist byth yn llygredig trwy gyfeiliornadau mewn materion ffydd, llai o lawer fod o honi dros gynnifer o oesoedd yn orchuddiedig gan eilun-addoliaeth ffiaidd) fod yn anwir. "Ti yw Pedr, (medd ein Harglwydd; Matt. xvi. 18.) ac ar y graig hon yr adeiladaf fy Eglwys; a phyrth uffern (galluoedd y tywyllwch) nis gorchfygant hi." Gan hyny nid allai Eglwys Crist byth fyned ar gyfeiliorn. Ewch a dysgwch yr holl genhedloedd (medd yr un Arglwydd wrth yr Apostolion a'i ddilynwyr, bugeiliaid yr Eglwys, Mat. xxviii. 20.) ac wele, yr ydwyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd." Gan hyny nis gallasai Eglwys Crist erioed syrthio i gyfeiliornadau, oblegid Crist yr hwn yw "y ffordd, a'r gwirionedd a'r bywyd," Ioan

xiv. 6, a addawodd ei bresennoldeb a'i gynnorthwy i'w hathrawon, hyd ddiwedd y byd ; Gwel hefyd Ioan xiv. 10, 17. Yn yr hwn le yr addawa Crist i'r unrhyw fugeiliaid ac athrawon yr Eglwys, "y Diddanydd, Yspryd y gwirionedd i aros gyda hwynt yn dragywydd-ol,i ddysgu iddynt,yr holl bethau adn. 26,ac i'w tywys i bob gwirionedd," Pen. xvi. 13. Ac Esai. lix. adn. 20, 21, Yn yr hwn le yr addawa Duw na syrthia yr Eg-lwys i gyfeiliornad wedi dyfodiad ein Hiachawdwr. "Dyma fy nghyfammod â hwynt, medd yr Arglwydd; fy Yspryd yr hwn sydd arnat, a'm geiriau y rhai a osodais yn dy enau, ni chiliant o'th enau, nac o enau dy hâd, nac o enau hâd dy hâd, medd yr Arglwydd; o hyn allan byth." Gwel hefyd anffaeledigaeth Eglwys Crist, Ps. lxxii. ad. 5, 7. Psal. lxxxix. adn. 3, 4, 27, 28, 29, 31, hyd adn. 37. Esai. ix. adn. 6,7. Pen. lx. adn. 11, 25, 26. Jerem. xxxi. adn. 36, 37. Pen. xxxiii. adn. 14, hyd at 21. Ezec. xxxxiii. adn. 16, Ephes. iv. ad. 11, hyd 14. Pen. v. ad. 23, 24. 1Tim. iii. 14,15.

3. Oblegid sylfaen gyntaf y grefydd Brotestanaid, a osodwyd trwy falchder anoddefol un gwr, sef, Luther, (yr hwn yr addefir ei fod ar y cyntaf *wrtho ei hun*) ei ryfyg i sefyll yn erbyn holl Eglwys Crist; gan hyny yn lle ei ddilyn ef, neu y grefydd a ddychymygwyd ganddo ef, ni a ddylem yn ol rheol yr Efengyl, St. Mat. xviii. adn. 17, edrych arno yn ddim amgen nag ethnig a phublican." "Os efe ni wrendy ar yr Eglwys chwaith, bydded ef i ti, megys yr Ethnig a'r publican."

4. Oblegid Luther a'r Protestaniaid cyntaf, pan osodasant i fynu eu crefydd Newydd, gan ymwrthod â holl awdurdod ac athrawiaeth yr holl Eglwysi oedd-ynt y pryd hyny ar y ddaear, ni allasent ddywedyd y Credo heb ddywedyd Celwydd, pan y daethant at yr Erthyglau hyny, "Credaf yn yr Eglwys lân Gatholig, Cymun y Saint."



5. Oblegid nad oes gan yr Eglwys Brotestanaidd y nodau hyny, trwy ba rai y mae y Credo Nicene yn ein cyfarwyddo at wir Eglwys Crist. Nid yw "*un, santaidd, Catholig*, ac *Apostolaidd*."

1. Nid yw *un*, o herwydd y mae gwahanol gangenau y diwygiad ffugiedig yn gwahanu y naill oddiwrrh y llall mewn ffydd a chymundeb ; na, nid oes braidd ddau ddyn yn eu mysg ag sydd yn gyflawn o'r un olygiadau mewn crefydd; ac nid yw ryfedd, gan mai yspryd neillduol pob dyn gyda hwy, yw y farn olaf mewn ym-rafael; ac felly nid yw bosibl y dygir hwynt i undeb mewn crefydd.

2. Nid yw eu Heglwys yn *Santaidd* yn ei hathraw-iaeth, yr hon, yn enwedig yn y "diwygwŷr" cyntaf, oedd warthus a chywilyddus, yn cefnogi chwant a thoriad addunedau, cableddus trwy gyhuddaw Duw o fod yn awdwr pechod; yn hynod ddrygionus yn eu golygiadau am ewyllys-rydd a rhag-arfaethiad; nac ychwaith nid yw hi santaidd yn mywyd ei dysgawdwŷr cyntaf (nid oedd yr un o honynt yn hynod mewn santeiddrwydd, ond y rhan fwyaf o honynt yn nod-edig am eu drygioni) nac eu dilynwŷr, y rhai, fel yr addefa llawer o brif ysgrifenwyr Protestanaidd yn rhwydd, yn lle myned yn well nag oeddynt o'r blaen, trwy gofleidio y "grefydd ddiwygiedig," oedd-ynt yn myned yn waeth yn feunyddiol.

3. Nid yw eu Heglwys yn *Gatholig*; y maent yn hyspys na pherthyna yr enw yma iddynt hwy; gan hyny hwy a gymerasant enw arall arnynt eu hunain, h. y. Protestaniaid. Ac, yn wir pa fodd y gallasai eu Heglwys fod yn Gatholig neu gyffredinol,yr hyn sydd yn arwyddo, bod, yn mhob oes, a phob cenhedlaeth, gan nad oedd ei hanfod am bymtheg canrif, ac y mae hi yn anadnabyddus ymhlith yr han fwyaf o genhedloedd.

4. Nid yw eu Heglwys yn *Apostolaidd*, yn gymaint

na sefydlwyd hi gan yr un o'r Apostolion, ac nid oes iddi ychwaith, unrhyw ddilyniad o athrawiaeth, cymundeb nac anfoniad cyfreithlawn oddiwrth yr Apostolion

5. O herwydd nad oedd gan Luther (Pregethwr cyntaf y grefydd Brotestanaidd) unrhyw arwyddion o gynhyrfiad gan Yspryd Duw, ond yn dwyn amryw nodau eglur o Yspryd Satan, er engraifft, ei gynddeiriogrwydd, a'i dymher angerddol, ni oddefai y gwrthwynebiad lleiaf, am yr hyn yr uchel-achwynodd ar Brotestaniaid; hefyd, ei waradwyddus briodas llawer o Brotestaniaid; hefyd, ei waradwyddus briodas gyda mynaches; ac nid llai gwaradwyddus ei ganiatâad, trwy yr hwn y goddefodd efe i Philip Iarll (*Landgrave*) Hesse, gael dwy wraig ar unwaith, yn groes i'r Efengyl; a'i aml gynadleddau gydâ'r diafol, yn un o ba rai, fel y dysgwn o'i enau ei hun. T. 7. Fol. 228, &c. y cafodd ei addysgu mewn rhan nid bechan o'i "ddiwygiad," sef, diddymu yr Offeren, trwy dad y celwyddau. Yn awr, pwy a anturiai ddilyn y dyn hwnw fel ei athraw mewn crefydd, yr hwn a ddysgwyd gan Satan, yn ol ei addefiad ei hun?

6. O herwydd y camrau cyntaf tuag at arwain i mewn i Loegr y grefydd Brotestanaidd, a wnaed gan Harri viii., y Tywysog pechadurusaf, ("yr hwn byth ni arbedai wraig yn ei chwant, na dyn yn ei ddigofaint;") a sylfaeni cyntaf y grefydd hono yn Lloegr a osodwyd trwy waed, chwant a chysegr-ladrad, megys ag y gŵyr pob un, a ŵyr ryw beth am hanes yr amserau hyny. I'r fath ddechreuad, yr oedd y cynnydd yn gyfatebol yn nyddiau y brenin Edward vi. yn yspaid yr hwn amser y cariwyd y "diwygiad" yn mlaen gyda llaw uchel gan Somerset a Dudley, mewn cysylltiad a'r Senedd, gyda golygiadau hunanfuddiol, nid heb lawer o helynt, a chysegr-ladradau aneirif, megys ag y mae eu hanesydd eu hunain Dr. Heylin, yn gorfod cydnabod.



7. O herwydd Protestaniaeth a sefydlwyd ar ei gwaelod presenol yn y deyrnas yma, trwy weithred y Senedd, yn y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad y frenines Elizabeth, yn wrthwynebol i'r holl Esgobion, i holl gymanfa y gwyr llên, ac i'r ddwy brif-athrofa; hyny yw, mewn un gair, yn wrthwynebol i holl gorff gŵyr llên y deyrnas, megys ac y gwelir yn *Dr. Fuller, L.* 6. *&c. Heylin T.* 284, 286. Pa fodd ynte y gelwir hi yn Eglwys Loegr, neu unrhyw Eglwys; wrth ystyried, iddi gael ei dwyn yn mlaen a'i sefydlu, trwy awdurdod gŵyr llyg, yn unig mewn gwrthwynebiad i'r Eglwys?

8. O herwydd y mae yn amlwg i unrhyw lygad diragfarn, nad oes cymaint o dduwiolder, dyhewyd neu grefydd yn mhlith y Protestaniaid ag sydd yn mysg Catholigion. Ni chlywn byth am engreifftiau rhyfeddol o santeiddrwydd yn eu mysg. Y cynghor Efengylaidd o ymwrthodiad gwirfoddol â daoedd a phleserau y bywyd yma sydd iaith nad oes neb o honynt yn ei deall. Un o wleddoedd cyntaf eu "diwygiad," oedd tynu i lawr yr holl dai cysegredig i neilltuaeth a gweddi.

9. O herwydd y mae pob math o resymau yn profi yn bleidiol i'r Eglwys Gatholig ac yn erbyn y Protestaniaid. Yr eiddom ni yw yr Eglwys yn yr hon y bu i'r holl Seintiau fyw a marw. Ein crefydd ni a gadarnhawyd yn mhob oes drwy aneirif ac anammheuol wyrthiau; nyni yn unig mewn cymundeb ydym yn meddiannu cadair Pedr, i'r hwn y gorchymmynodd Crist ofal ei ddïadell, Ioan xxi. Nyni yn unig ydym yn meddiannu yr enw Catholigion, priodoledig yn y Credo, i wir Eglwys Crist; trwy weinidogaeth ein Pregethwyr ni yn unig, yr argyhoeddwyd cenhedloedd o anffyddiaid, yn mhob oes, at Grist. Mewn gair, hynafiaeth, amlygrwydd parhâus, dilyniad Apostolaidd ac anfoniad, a phob priodoleddau eraill o'r wir Eglwys, ydynt eglur ar ein hochr ni.

10. Oblegid hyd yn nod yn marn y Protestaniaid rhaid ein bod ni ar yr ochr ddiogelaf.

Hwy a addefant nad yw ein Heglwys yn cyfeiliorni mewn pynciau sylfaenol; ei bod hi yn rhan, o leiaf, o Eglwys Crist: fod genym anfoniad cyffredinol, dilyniad, ac urddau oddiwrth Apostolion Crist; hwy oll a addefant, fod iachawdwriaeth yn ein cymundeb, ac o ganlyniad, nad oes yn ein Heglwys ddiffyg o ddim angenrheidiol er Iachawdwriaeth. Nis gallwn ni ganiatâu iddynt hwy, ddim o'r holl bethau hyn, heb wneuthur cam â'r gwirionedd, ac â'n cydwybodau ein hunain. Yr ydym ni yn cael ein hargyhoeddi, eu bod hwy yn euog o gyfeiliornadau sylfaenol yn yr erthygl o eiddo'r Eglwys, yr hwn pe buasai iddynt ei gredu yn iawn, ni fuasai iddynt ledrithio "diwygio" ei hathrawiaeth. Yr ydym yn cael ein hargyhoeddi mai Schismaticiaid ydynt, drwy ysgaru eu hunain oddiwrth gymundeb Eglwys Crist; a hereticiaid, trwy ymneilltuo oddiwrth ei hathrawiaeth, mewn llawer o erthyglau sylweddol, ac o ganlyniad, nad oes ganddynt ran yn Eglwys Crist; na chyfreithlon anfoniad, na dilyniad oddiwrth yr Apostolion, nac awdurdod bregethu gair Duw, neu i gyfranu y Sacramentau; Yn olaf, nid oes iddynt ran o addewidion teyrnas nefol Iesu Grist, ond yn unig mewn amgylchiad o anwybodaeth anorchfygol, oddiwrth yr hyn y mae yr Ysgrythyr, mewn cynnifer o fanau yn cau allan hereticiaid a schismaticiaid.

11. O herwydd fod y grefydd Brotestanaidd (er pe byddai i ni dybied ei phroffeswŷr yn esgusodol trwy anorchfygol anwybodaeth, oddiwrth yr euogrwydd o heresi a rhwygiad, yn eu gosod er hyny o dan anfanteision mwyaf dychrynllyd, yr hyn o angenrheidrwydd sydd yn mawr beryglu eu tragywyddol iachawdwriaeth, a hyny yn fwy, o herwydd bod yn dra thebygol o leiaf, nad oes ganddynt wir urddau yn eu plith; o ganlyniad nid oes ganddynt wir Sacrament o gorff a gwaed ein Harglwydd. Nid oes ganddynt ran yn aberth mawr yr Eucharist, na chymundeb yr Yspryd Glân, trwy arddodiad dwylaw yr Esgob mewn cadarnhâd neu *gonffirmasiwn*; nac awdurdod agoriadau teyrnas nefoedd wedi ei roddi i'r Eglwys. St. Matt. xvi. 19. ac Ioan xx. 22, 23. i ryddhâu pechaduriaid, &c. Ychwaneger at hyn, fod eu crefydd yn eu hyspeilio o gymun y Seintiau yn y nefoedd, trwy eu dysgu i beidio â cheisio eu gweddïau neu eu heiriolaeth. Y mae yn eu hannog hwy yn yr Athrawiaeth o gyfiawnhâd trwy "ffydd yn unig," Erthygl 11. i beidio â bod yn brydерus am adbrynu eu pechodau blaenorol trwy weithredoedd da a phenyd llymdost: Y mae yn eu hyspeilio pan fyddont yn glaf, o'r fendith fawr hono, yn gystal corphorol ac Yspryдol, addawedig, (St. Iago v.) i eneiniad y claf; ac wedi iddynt farw, nid oes gweddïau i'w dywedyd, rhag ofn ofergoeledd. Yn olaf, yr Ysgrythyrau y rhai a roddir yn eu dwylaw, sydd lygredig; y gweithredoedd da ag y mae eu Heglwys yn eu gorchymmyn neu yn eu hannog, megys ymprydio, cadw gwyliau, cyfaddefiad, &c. a esgeulusir yn gwbl, ac y mae y gweinidogion a'r bobl yn rhedeg i ffordd lydan ac esmwyth fucheddau, gydag ychydig neu ddim gofal am eu sefyllfa ddyfodol; tra y mae gwir weision Duw bob amser mewn cyffelybrwydd i'r Apostolion a Seintiau eraill, yn arwain bywyd o farweiddiad a hunanymwadiad, a phob amser yn ymdrechu i weithio allan eu hiachawdwriaeth trwy ofn a dychryn.

12. O herwydd na all y grefydd Brotestanaidd ganiatâu i ni ddim sicrwydd mewn materion o ffydd. Y mae eu Heglwys yn addef ei hun yn ffaeledig hyd yn nod mewn pynciau sylfaenol, gan nad yw hi yn ymhòni bod yn ddim ond rhan yn unig o'r Eglwys

gyffredinol, a phob rhan neu bwnc o'u Heglwys, yn ol ei hegwyddorion hi, a all syrthio i gyfeiliornadau dinystriol i iachawdwriaeth. Pa sicrwydd gan hyny a all hi roddi i'w dilynwyr, nad yw hi yn weithredol yn eu harwain yn y ffordd i dragywyddol ddamnedigaeth? Nid oes ganddi anffaeledig sicrwydd o'r Ysgrythyr ei hun, yr hon y mae hi yn cymmeryd arni ei gwneuthur ei hunig reol ffydd; o ba le y gall hi ffuantu cael sicrwydd? nid o'r Ysgrythyr ei hun; o herwydd ni byddai hyn ond rhedeg mewn cylch. Heblaw hyn, nid oes un rhan o'r Ysgrythyr yn dywedyd i ni, pa lyfrau ynt Ysgrythyr, a pha rai nad ynt: llawer llai y mae un rhan o'r Ysgrythyr yn ein sicrhâu fod y Bibl Protestanaidd Saesnig, er angraifft, yn gydunol â'r hyn a ysgrifenodd y Prophwydi a'r Apostolion er ys cynnifer o oesoedd; neu fod cymmaint ag un gair ynddo yn anllygredig. Os cyrcha hi at draddodiad, nis gall hyn, yn ol ei hegwyddorion hi, sylfaenu sicrwydd ffydd, gan ei bod yn gwneuthur yr Ysgrythyr ei hunig reol o ffydd. Os cyrcha hi at awdurdod Eglwysig, nid yw hyn, meddai hi, yn anffaeledig. Pa beth gan hyny sydd raid ei ddyfod o anffaeledigaeth ei ffydd, pan nad oes ganddi anffaeledig sicrwydd am yr Ysgrythyr, ar yr hon yn unig y mae hi yn ffuantu sylfaenu ei ffydd! Heblaw hyn, pe byddai hi yn anffaeledig sicr fod yr Ysgrythyr yn bur air Duw, ni lesâi ddim iddi oddigerth ei bod hefyd, yn anffaeledig sicr fod yr Ysgrythyrau i'w deongli yn ei dull hi. Ac y mae hyn yn anffaeledigrwydd i'r hwn nis gall ac nid yw yn ymhoni ei bod yn meddu dim hawl. Ac fel hyn, wedi ei holl ymffrostiadau o "bur air Duw," nid oes gan ei phlant un sylfaen arall i'w ffydd a'u crefydd, amgen nag eu ffaeledig ddeongliad o air Duw, yn groes mewn llawer o bynciau i ddeongliad Eglwys wedi ei sylfaenu ar yr awdurdod hyny nas gall hi honi hawl iddo.

J. Jones, Argraffydd, Llanrwst

# Y CYNNWYSIAD.

Tu dal.

PEN. I. Am yr Eglwys .... 3
1. Fod gan Grist wir Eglwys ar y ddaear bob amser .. 3
Proffes o'r Ffydd Gatholig .... 5
2. Fod Eglwys Crist ar y ddaear bob amser yn un .... 8
3. Fod Eglwys Crist bob amser yn santaidd, yn ei hathrawiaeth a'i hammodau cymmundeb, a phob amser yn rhydd oddiwrth gyfeiliornadau niweidiol .... 11
4. Bod Eglwys Crist yn Gatholig, neu gyffredinol .... 13
5. Bod yn rhaid i Eglwys Crist fod yn Apostolaidd trwy olynaid o'i Bugeiliaid, a thrwy anfoniad cyfreithlon yn tarddu oddiwrth yr Apostolion .... 14
6. Mai yr Eglwys Gatholig, ac nid yr Eglwys Brotestanaidd, yw gwir Eglwys Crist .... 15
PEN. II. Am yr Ysyrythyr a Thraddodiad .... 16
1. Am Draddodiadau Apostolaidd ac Eglwysaidd .... 18
2. Am Ordeiniadau a Sefydliadau yr Eglwys .... 19
PEN. III. Am y Sacramentau .... 21
PEN. IV. Am y Gwir Bresennoldeb a Thraws-sylweddiad .. 27
PEN. V. Am Gymmundeb mewn un rhyw .... 30
PEN. VI. Am yr Offeren .... 34
PEN. VII, Am Burdan .... 37
PEN. VIII. Am Anrhydeddiad a Chyfarchiad y Seintiau .. 41
1. Am Anrhydeddiad yr Angelion a'r Seintiau .... 41
2. Fod y Seintiau a'r Angelion yn gweddio ar Dduw drosom ni .... 43
3. Am ddeisyfiadau ar y Seintiau .... 45
4. Am Greiriau .... 50
PEN, IX, Am Ddelwau .... 51
PEN. X. Am Faddeuant neu Indwlgens .... 54
PEN, XI, Am Benaduriaeth St. Pedr a'i ddilynwyr .... 55
Diweddglo .... 58
Anghwanegiad .... 59
Rhesymau paham nad all Catholig Rhufeinig gydsynio â'r Eglwys Brotestanaidd .... 63